wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Datganiad Cyfrifon
am y flwyddyn ariannol
a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

M S Owen
Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad

CYNNWYS

DATGANIAD O GYFRIFON	**TUDALEN**
Rhagair Esboniadol	2
Datganiad Polisïau Cyfrifyddu	6
Datganiad Cyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon	14
Datganiadau Ariannol Creiddiol:	
Cyfrif Incwm a Gwariant	15
Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor	16
Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig	18
Mantolen	19
Datganiad Llif Arian	20
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol Creiddiol	21
Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Cyllid Tai (HRA)	52
Datganiad Symudiad ar Weddill y Cyfrif Cyllid Tai	53
Nodiadau ar Ddatganiadau'r Cyfrif Cyllid Tai	54
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	57

Wrth gefn y Datganiad Cyfrifon mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 59

1. Cyflwyniad

Crynodeb yw'r llyfryn hwn o gyfrifon Cyngor y Fwrdeistref Sirol am y flwyddyn ariannol 2009/10 ac mae'n cynnwys:

- y **Cyfrif Incwm a Gwariant (I&E)** sy'n hysbysu cost glir yr holl swyddogaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt am y flwyddyn, gan ddangos sut y talwyd am hynny o grantiau cyffredinol y llywodraeth ac incwm gan drethdalwyr lleol;
- y **Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor** sy'n cysoni rhwng alldro'r Cyfrif Incwm a Gwariant a'r gweddill a sefydlwyd trwy'r darpariaethau statudol perthnasol;
- y **Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig (STRGL)** sy'n tynnu ynghyd holl enillion a cholledion y Cyngor am y flwyddyn, gan ddangos y cynnydd / lleihad cronnus yn ei werth clir;
- y **Fantolen** sy'n dangos sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2010;
- y **Datganiad Llif Arian** sy'n dangos mewnlifoedd ac all-lifoedd arian yn deillio o drafodion gydag eraill, at ddibenion cyllid a chyfalaf;
- **Cyfrif Incwm a Gwariant** y **Cyfrif Cyllid Tai (HRA)** sy'n dangos, yn fwy manwl, yr incwm a gwariant ar wasanaethau HRA sydd yng Nghyfrif Incwm a Gwariant cyfan y Cyngor;
- y **Datganiad Symudiad yng Ngweddill y Cyfrif Cyllid Tai** sy'n dangos sut mae gwarged neu ddiffyg Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Cyllid Tai am y flwyddyn yn cysoni â'r symudiad yng Ngweddill y Cyfrif Cyllid Tai am y flwyddyn.

2. Alldro Cyllid mewn cymhariaeth â Chyllideb y Cyngor

2.1 Mae manylion gwariant cyllidol y Cyngor am y flwyddyn yn cael eu cyflwyno yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a'r Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor sy'n ymddangos ar dudalennau 15 i 17. Mae'r Cyngor yn hysbysu diffyg o £64,331k (£47,659k ac eithrio HRA) am y flwyddyn, gyda symiau sylweddol cysylltiedig yn bennaf ag addasiadau technegol (gwelwch nodyn 1 Datganiad Polisïau Cyfrifyddu) fel:

- Costau amhariad asedau sefydlog, lle nad yw gwariant cyfalaf a wnaed gan y Cyngor wedi arwain at gynnydd cyfartal yng ngwerth asedau sefydlog.
- Effaith Budd-daliadau Ymddeol FRS17 ar gyfrif incwm a gwariant y Cyngor, yn bennaf o ganlyniad i gost llogau pensiwn a'r elw disgwyliedig ar asedau pensiwn.

Mae gan y Cyngor ddiffyg o £961k yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor. O'r diffyg hwn, mae £1,027k i'w briodoli i gyllidebau ysgolion ac mae gwarged o £66k i'w briodoli i gyllidebau eraill.

2.2 Mae'r Cyngor yn monitro ar gyfer ei gyllideb am y flwyddyn seiliedig ar ei strwythur rheolaeth fewnol ac adrannol. Caiff Ysgolion a'r Cyfrif Cyllid Tai eu hysbysu ar wahân yn ystod y flwyddyn ariannol a'u cadarnhau fel rhan o gynhyrchu cyfrifon diwedd y flwyddyn.

2.3 Cymeradwyodd y Cyngor Gyllideb 2009/10 ym mis Chwefror 2009. Daeth y gyllideb am y flwyddyn i £201m ac roedd dan arolygaeth a rheolaeth fanwl yn ystod y flwyddyn, yn unol â gweithdrefnau cymeradwy'r Cyngor. Caiff union wariant ac incwm Cronfa'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mewn cymhariaeth â chynllun y gyllideb ac wedi'i gysoni â'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar dudalen 15, ei grynhoi mewn tabl ar dudalen 3.

2.4 Mae modd cysoni diffyg Cronfa'r Cyngor â'r hyn a hysbysir yn y Datganiad Symudiad yng ngweddill Cronfa'r Cyngor ar dudalennau 16 ac 17.

RHAGAIR ESBONIADOL

Cronfa'r Cyngor	Cyllideb £000 a	Gwir Alldro £000 b	Amrywiant £000 c=b-a		Addasiadau Technegol (yn cyn. HRA) £000 d	Alldro I&E (tud. 15 e=b+d	Amrywiant I&E (tud. 15) £000 f=e-a
Gwariant Clir ar Wasanaethau / Cost Glir	110,203	110,372	169		128,614	238,986	128,783
Gwasanaethau Ysgolion	66,227	67,254	1,027		(67,254)	0	(66,227)
Incwm a Gwariant Corfforaethol:							
Gwasanaethau	6,879	6,631	(248)		(6,631)	0	(6,879)
Llog Taladwy a Chostau Gweithredu Eraill	17,489	17,451	(38)		9,002	26,453	8,964
Archebiannau:							
Cynghorau Cymuned					1,748	1,748	1,748
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru					10,058	10,058	10,058
Cyfanswm Gwariant Clir	**200,798**	**201,708**	**910**		**75,537**	**277,245**	**76,447**
Tanwariant a ddygwyd ymlaen:		361	361		(361)	0	0
Gwariant Gweithredu Clir	**200,798**	**202,069**	**1,271**		**75,176**	**277,245**	**76,447**
Ariannwyd trwy:							
Grantiau'r Llywodraeth	(121,998)	(121,999)	(1)		0	(121,999)	(1)
Ardrethi Annomestig	(35,605)	(35,605)	0		0	(35,605)	0
Treth y Cyngor	(43,195)	(43,504)	(309)		(11,806)	(55,310)	(12,115)
Cyfanswm Incwm	**(200,798)**	**(201,108)**	**(310)**		**(11,806)**	**(212,914)**	**(12,116)**
Diffyg			**961**				**64,331**
Cyfraniad o/(i) :							
Gweddillion Ysgolion			**1,027**				
Gweddillion Eraill			**(66)**				

3. Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2010

3.1 Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer ymrwymiadau hysbys ac adnoddau sefydledig wrth gefn, lle bo hynny'n ofynnol trwy statud, ar gyfer ymrwymiadau'r dyfodol neu a glustnodwyd ar gyfer datblygiadau gwasanaeth y dyfodol. Mae gweddill cyffredinol Cronfa'r Cyngor yn fesur o adnoddau diymrwymiad wrth gefn sydd gan y Cyngor ar gyfer gofynion llif arian a digwyddiadau annisgwyl y dyfodol. Daeth cyfanswm gweddill Cronfa'r Cyngor, oedd yn £6.952m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, i £7.018m ar 31 Mawrth 2010.

4. Buddsoddiad Cyfalaf

4.1 Daeth buddsoddiad cyfalaf (ac eithrio croniadau cyfalaf) yn y flwyddyn i £51.7m. Mae'r tablau canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r gwariant hwn a sut y cafodd ei gyllido.

Lle gwariwyd yr arian cyfalaf	2009/2010 £000	 %
Addasiadau a gwelliannau ysgolion	5,211	10.08
Gwelliannau ffyrdd	3,117	6.03
Datblygu Economaidd a Chynllunio	2,833	5.48
Grantiau Adnewyddu Tai / Adnewyddu	3,906	7.56
Gwella tai'r Cyngor	12,510	24.20
Arall	7,203	13.94
PFI – Cynllun Rheoli Gwastraff	16,910	32.71
Cyfanswm	**51,690**	**100.00**

O ble daeth yr arian cyfalaf	2009/2010 £000	 %
Benthyca	8,559	16.56
Derbyniadau Cyfalaf	1,579	3.05
Grantiau a Chyfraniadau	20,400	39.47
Cyllid	4,171	8.07
Prydles Gyllidol	71	0.14
PFI	16,910	32.71
Cyfanswm	**51,690**	**100.00**

4.2 Mae addasiadau a gwelliannau ysgolion yn cynnwys £2.8m ar gyfer Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd Cyfnod II. Mae Datblygu Economaidd a Chynllunio'n cynnwys £1m o ran gwelliannau yn Nôl Eryrod ac mae Gwelliannau Ffyrdd yn cynnwys £1.3m ar gyfer Ffordd Fynediad Stad Ddiwydiannol Wrecsam.

5 Benthyca Hirdymor

5.1 Prif ddyled fenthyca'r Cyngor ar 31 Mawrth 2010 oedd £132.85m. No new borrowing was taken out during the year.

6 Adbrisio Asedau

6.1 Mae gan y Cyngor bolisi o adbrisio holl asedau bob pum mlynedd. Gwnaed prisiad llawn fel yr oedd pethau ar 1 Ebrill 2009. Roedd hyn yn golygu adolygiad o werthoedd tir ac adeiladau i benderfynu a ddylid cynyddu neu leihau gwerthoedd a bywyd disgwyliedig yr asedau hyn. Gwnaed codiadau o £206.9m a gostyngiadau o £42.3m yng ngwerth asedau ac arweiniodd adolygu gwerthoedd asedau ynghyd â'r newidiadau prisio at gynnydd mewn taliadau dibrisiant o £7.2m. Yn ystod y flwyddyn arweiniodd newidiadau eraill at godiadau ychwanegol o £0.3m a gostyngiadau o £9.7m sy'n cael eu cynnwys yng ngwerth asedau ar 31 Mawrth 2010. Codwyd cyfanswm y gostyngiad o £52m yng ngwerth asedau yn ystod y flwyddyn ar Incwm a Gwariant ac mae wedi cyfrannu at ddiffyg o £64m ar ddiwedd y flwyddyn.

7 Atebolrwydd Pensiynau

7.1 Fel y cyflwynwyd, mae'r Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion Safon Adroddiadau Ariannol 17 (FRS17), trwy fod y Cyfrif Incwm a Gwariant yn adlewyrchu cost darparu pensiynau cyflogeion yn y flwyddyn gyfredol, yn ôl cyngor actiwari'r Cyngor. Yn ogystal, mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad yr actiwari o gyfran y Cyngor o atebolrwydd y Gronfa Bensiynau (£156m) fel yr oedd ar 31 Mawrth 2009, a'r adnoddau wrth gefn sydd eu hangen i dalu am yr atebolrwydd hwnnw. Atebolrwydd y gronfa bensiynau a ddadlennwyd yw cyfanswm y diffyg estynedig sy'n bodoli dros fywyd disgwyliedig y gronfa. Bydd y diffyg hwn yn newid bob blwyddyn yn dibynnu ar berfformiad buddsoddiadau a'r tybiaethau actiwaraidd sy'n cael eu gwneud o ran pensiynwyr presennol, pensiynwyr gohiriedig a gweithwyr presennol.

8 Newid yn y Polisïau Cyfrifyddu, Ffurf y Cyfrifon a Gofynion Deddfwriaethol

8.1 Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol (SORP) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Cyflwynwyd rhai newidiadau i SORP 2009 ac, o ganlyniad, gwnaed newidiadau i ffurf y cyfrifon, a hefyd mabwysiadwyd polisïau cyfrifyddu newydd.

i) Nid yw'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer Menter Cyllid Preifat (PFI) a chontractau tebyg mwyach yn seiliedig ar safon gyfrifyddu'r DU FRS 5 ond ar Safonau Rhyngwladol Cyflwyno Adroddiadau Ariannol (IFRS). Seiliwyd y gofynion ar Drefniadau Consesiwn Gwasanaethau IFRIC 12 a ddehonglwyd ar gyfer grantwyr consesiynau ac mae'n cyd-fynd â'r agwedd a fabwysiadwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Seiliedig ar IFRS (IFReM) y Llywodraeth. Mae hyn yn golygu y bydd eiddo a chyfarpar y Fenter Cyllid Preifat sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyfleuster ailgylchu'r Cyngor, a ddechreuodd weithredu'n llawn ym mis Medi 2009, yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ynghyd ag ymrwymiad am y cyllid sy'n cael ei ddarparu gan weithredwr y Fenter Cyllid Preifat.

ii) Ni chwmpaswyd cyfrif am drethi lleol (h.y. Trethi Annomestig Cenedlaethol a Threth y Cyngor) yn fanwl mewn SORP blaenorol ac mae gofynion penodol yn SORP 2009:
   a) Mae'r SORP yn gofyn bod holl incwm treth y cyngor yn cael ei gynnwys yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor ac archebiannau a dalwyd i archebwyr sylweddol yn cael eu cyflwyno fel gwariant. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflwyno incwm treth y cyngor yn glir o archebiant Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn hytrach na dangos yr archebiant fel gwariant.
   b) Yr arfer fu dal dyledwyr y Dreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) ar Fantolen y Cyngor. Mae CIPFA/LASAAC wedi dod i gasgliad bod y Cyngor yn gweithredu fel asiant Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) wrth gasglu NNDR. Mae SORP 2009 yn cynnwys gofyniad na ddylai'r Cyngor gydnabod dyledwyr NNDR ar y Fantolen ond, yn hytrach, gydnabod credydwr neu ddyledwr ar gyfer arian a gasglwyd oddi ar ddyledwyr NNDR fel asiant LlCC ond heb ei dalu i LlCC, neu a ordalwyd i LlCC, ar ddyddiad y Fantolen. Ailadroddwyd y ffigurau cymharol ar gyfer 2008/09. (Gwelwch nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol Creiddiol)

iii) Newidiwyd SORP sy'n gofyn bod cyfran hirdymor ymrwymiadau ariannol sydd i'w talu o fewn 12 mis ar ôl dyddiad y Fantolen yn cael eu cyflwyno o fewn rhwymedigaethau cyfredol. Mae hyn yn cynrychioli newid mewn polisi cyfrifyddu ac ailadroddwyd y ffigurau cymharol. (Gwelwch nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol Creiddiol).

iv) Dilëwyd tri nodyn datgelu, sef gwariant Adran 137, gwariant ar gyhoeddusrwydd a'r cyfrif rheoli adeiladu fel gofynion SORP 2009.

Nid yw un o'r newidiadau uchod yn effeithio ar werth clir y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010.

8.2 Y newidiadau allweddol yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2010 yw:
(i) Bellach rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad ardystio bod y cyfrifon yn "ddarlun cywir a theg" o sefyllfa'r Cyngor.
(ii) Newidiwyd nodyn datgan cydnabyddiaeth i roi mwy o wybodaeth.

9 Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael am gyfrifon a chyllidebau'r Cyngor oddi wrth y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam. Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor o ddarparu gwybodaeth lawn ynghylch materion ariannol y Cyngor. Yn ogystal, mae gan y cyhoedd hawl statudol i edrych ar y cyfrifon cyn cwblhau'r archwiliad. Caiff argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio ei hysbysebu yn y wasg leol.

Bydd y Datganiad Cyfrifon ar gael hefyd ar wefan yr Awdurdod (www.wrecsam.gov.uk).

M S Owen

Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad

DATGANIAD POLISÏAU CYFRIFYDDU

1 CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2009/10 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2010. Paratowyd yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2009 (SORP). Cadwyd at y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gymhwyso Datganiadau Arferion Cyfrifyddu Safonol (SSAP) a Safonau Cyflwyno Adroddiadau Ariannol (FRS) i Awdurdodau Lleol, sy'n cael eu cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu hefyd.

Paratowyd y Cyfrifon i gydymffurfio â chysyniadau cyfrifyddu treiddiol Croniadau a Busnes Hyfyw, yn ôl gofynion FRS18 ("Polisïau Cyfrifyddu"), a hefyd gyda chysyniad gofynion deddfwriaethol sylfaenol, yn ôl gofynion SORP. Israddiwyd cysyniadau blaenorol Cysondeb a Gochelgarwch yn amcanion dewisol ar gyfer asesu polisïau cyfrifyddu, gydag Amhleidioldeb yn cael blaenoriaeth dros Ochelgarwch. Mae SORP yn dal i fynnu cydymffurfio â chysyniad Materoliaeth.

Paratowyd y dadansoddiad gwariant gwasanaethau yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (BVACOP).

2 DARPARIAETHAU

Gwnaed darpariaethau ar gyfer pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi ymrwymiad ar y Cyngor fydd angen setliad yn ôl pob tebyg, ond nad oes modd penderfynu ar swm nac amseriad y setliad yn gywir. Caiff y ddarpariaeth ei chodi ar gyfrif cyllid y gwasanaeth priodol pan ddaw'r Cyngor yn ymwybodol o'r ymrwymiad, seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o'r setliad tebygol. Pan gaiff taliadau eu gwneud, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a sefydlwyd ar y fantolen. Caiff amcangyfrifon y setliadau eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan ddaw'n debygol na fydd angen taliad, caiff y ddarpariaeth ei gwrth-droi a'i chredydu yn ôl i gyfrif cyllid y gwasanaethau perthnasol. Caiff manylion darpariaethau eu rhoi yn nodiadau 26 a 27 ar y Datganiadau Ariannol Creiddiol.

3 ADNODDAU WRTH GEFN

Mae'r Cyngor yn rhoi symiau penodol o'r neilltu fel adnoddau wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol, neu ar gyfer cyfyngau. Caiff adnoddau wrth gefn eu creu trwy adfeddiannu symiau yn y Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor. Pan fo gwariant i gael ei gyllido o adnoddau wrth gefn, mae'n cael ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno, ar gyfer Cost Glir Gwasanaethau yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Yna caiff yr adnoddau wrth gefn eu hadfeddu yn ôl i ddatganiad Gweddill Cronfa'r Cyngor fel nad oes unrhyw daliad clir ar gyfer treth y cyngor am y gwariant.

Nid yw rhai adnoddau wrth gefn ar gael at ddibenion cyllidol ac nid oes modd eu defnyddio heblaw at ddibenion statudol penodol. Mae'r Gronfa Adbrisio, y Cyfrif Addasu Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn yn enghreifftiau o'r fath adnoddau wrth gefn. Caiff manylion adnoddau wrth gefn a glustnodwyd eu dangos yn nodyn 39 ar y Datganiadau Ariannol Creiddiol.

4 DYLEDWYR A CHREDYDWYR

Yn unol â SORP caiff cyfrifon y Cyngor eu cadw ar sail croniadau. Mae hyn yn golygu bod symiau dyledus i, neu gan, y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn gynwysedig heb ystyried a dderbyniwyd neu a dalwyd yr arian. Lle nad yw union symiau'n hysbys, caiff amcangyfrifon eu cynnwys yn y cyfrifon. Caiff croniadau gwariant cyfalaf sylweddol eu gwneud hefyd ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff manylion prif ddyledwyr y Cyngor eu dangos yn nodyn 26 ar y Datganiadau Ariannol Creiddiol.

Pan fo hynny'n briodol, gwnaed darpariaeth yn y cyfrifon o ran dyledion drwg ac amheus. Yn gyffredinol caiff hyn ei gyfrif ar sail oed y ddyled ond, mewn rhai achosion, caiff ei gyfrif yn ôl statws adennill dyledwyr unigol.

5 STOCIAU A GWAITH AR Y GWEILL

Caiff gwerth gwaith ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn ei gyfrif fel y gost i'w chynnwys yn y cyfrifon. Caiff stoc a nwyddau mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn eu cofnodi am bris cost, heblaw nwyddau sy'n cael eu dal yn Nepo Ffordd yr Abaty, lle caiff nwyddau eu cyfrif ar bris cost ar gyfartaledd. Mae hyn yn wyriad oddi wrth ofynion SORP a Datganiad o Safon Arferion Cyfrifyddu (SSAP 9), sy'n gofyn dangos nwyddau fel yr isaf o'r gost a gwerth gwireddadwy net. Fodd bynnag, nid yw'r symiau dan sylw'n cael eu hystyried yn faterol berthnasol**.**

6 ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau sydd heb fod â sylwedd diriaethol, ond y mae modd eu hadnabod a'u rheoli gan y Cyngor, ei droi'n gyfalaf pan fydd yn dod â buddiannau i'r Cyngor am fwy nag un flwyddyn ariannol. Caiff y gweddill ei amorteiddio i gyfrif y gwasanaeth perthnasol dros oes economaidd y buddsoddiad i adlewyrchu treuliant buddiannau.

7 ASEDAU DIRIAETHOL SEFYDLOG

Asedau diriaethol sefydlog yw asedau sydd â sylwedd diriaethol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau, neu at ddibenion gweinyddol, yn barhaus.

Cydnabyddiaeth: caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella asedau diriaethol sefydlog ei droi'n gyfalaf ar sail croniadau, ond ei fod yn dod â buddiannau i'r Cyngor a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddo am fwy nag un flwyddyn ariannol. Caiff gwariant sy'n sicrhau, ond heb ymestyn, safonau perfformiad disgwyliedig ased a aseswyd yn flaenorol (e.e. gwaith trwsio a chynnal a chadw), ei godi ar gyllid wrth ei wario.

Mesur: Caiff asedau eu mesur i ddechrau am y gost, yn cynnwys holl wariant sydd i'w briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i gyflwr gweithredol ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig. Yna caiff asedau eu dwyn ymlaen ar y fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Eiddo buddsoddi ac asedau diangen bellach – yr isaf o gost glir amnewid ar y pryd neu'r gwerth gwireddadwy clir
- Anheddau, tir ac adeiladau eraill – yr isaf o gost glir amnewid ar y pryd neu'r gwerth gwireddadwy clir ar eu defnydd presennol
- Asedau isadeiledd – cost hanesyddol ddibrisiedig
- Anheddau'r cyngor – llif arian gostyngol seiliedig ar incwm rhent y dyfodol
- Asedau Cymunedol – cost amnewid ddibrisiedig neu werth defnydd sy'n bodoli
- Cerbydau, peiriannau ac offer – cost hanesyddol fel dirprwy dros y gwerth presennol.

Caiff cost gyfredol glir amnewid ei hasesu fel:

- Asedau gweithredol anarbenigol – gwerth defnydd sy'n bodoli
- Asedau gweithredol arbenigol – gwerth defnydd sy'n bodoli os oes digon o dystiolaeth neu, fel arall, y gost amnewid ddibrisiedig
- Eiddo buddsoddi ac asedau dros ben – gwerth y farchnad.

Caiff asedau sydd ar y fantolen am eu gwerth presennol eu hadbrisiwyd pan fu newidiadau sylweddol yn eu gwerth ond, o leiaf, bob pum mlynedd. Caiff cynnydd mewn prisiadau eu cyfateb gan gredydau i'r Gronfa Adbrisio i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Fel eithriad, byddai modd credydu enillion i'r Cyfrif Incwm a Gwariant pan fyddant yn deillio o wrthdroi colled amhariad a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth. Mae'r Gronfa Adbrisio'n cynnwys enillion adbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei weithredu. Cyfunwyd enillion yn deillio cyn y dyddiad hwnnw â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8 DIBRISIANT

Caiff holl asedau sefydlog, heblaw tir ac eiddo buddsoddi gyda gydag oes fuddiol gyfyngedig, eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinol. Caiff asedau eiddo eu dibrisio dros weddill yr oes fuddiol a bennwyd gan y Prisiwr. Caiff asedau eraill eu dibrisio dros y cyfnodau canlynol:-

Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar	5 -10 mlynedd
Isadeiledd	50 mlynedd

Pan fo ased yn cynnwys cydrannau sylweddol gyda gwahanol amcangyfrif o'u hoes, caiff y rhain eu dibrisio ar wahân. Caiff enillion adbrisio eu dibrisio hefyd, gyda swm yr un faint â'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth presennol yn cael ei godi ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi bod yn daladwy ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

9 AMHARIAD

Yn unol â gofynion FRS11, bydd y Cyngor yn adolygu ar ba werth y caiff pob dosbarth o ased ei gynnwys ar y fantolen ar ddiwedd pob cyfnod hysbysu. Pan fo rheswm dros gredu bod y gwerth wedi newid yn sylweddol yn y cyfnod, caiff y prisiad ei addasu o ganlyniad. Caiff amhariad ei godi ar y gwasanaeth perthnasol pan fydd yn deillio o dreuliant buddiannau economaidd. Fel arall, caiff ei ddileu gyferbyn ag unrhyw enillion adbrisio sydd i'w priodoli i'r ased perthnasol yn y Gronfa Adbrisio, gydag unrhyw swm dros ben yn cael ei godi ar y gwasanaeth perthnasol. Pan fo colled amhariad yn cael ei godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant, ond bod enillion adbrisio wedi cronni yn y Gronfa Adbrisio ar gyfer yr ased, caiff swm hyd at werth y golled ei drosglwyddo o'r Gronfa Adbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

10 GWAREDIADAU

Pan fydd ased yn cael ei waredu, caiff gwerth yr ased ar y Fantolen ei ddileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, fel rhan o'r ennill neu golled ar waredu. Nid yw gwerth dileu'r gwarediadau yn cael ei godi ar dreth y cyngor / rhenti tai ac, felly, caiff y swm ei drosglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o'r Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor / Gweddill HRA.

Caiff derbyniadau o warediadau eu credydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant fel rhan o'r ennill neu golled ar waredu. Caiff unrhyw enillion adbrisio yn y Gronfa Adbrisio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff derbyniadau dros £10k eu dosbarthu fel Derbyniadau Cyfalaf. Caiff cyfran o dderbynebau cysylltiedig â gwarediadau tai (75% o ran anheddau) ei neilltuo i leihau'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion tai (y gofyniad codi cyfalaf tai) a'i throsglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae gofyn credydu gweddill derbyniadau i'r Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn, ac yna i'w defnyddio'n unig ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd, neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Caiff derbyniadau eu trosglwyddo i'r Adnoddau wrth Gefn o'r Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor / Gweddill HRA.

11 TALIADAU CYFALAF

Caiff y symiau canlynol eu codi ar Gyfrifon Cyllid Gwasanaethau, i gofnodi gwir gost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn**:**

- dibrisiad i'w briodoli i'r asedau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion amhariad i'w priodoli i dreuliant clir buddiannau economaidd ar asedau diriaethol sefydlog sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth a cholledion eraill lle nad oes unrhyw enillion wedi cronni yn y Gronfa Adbrisio i'w dileu ar eu cyfer
- amorteiddiad asedau sefydlog anniriaethol i'w briodoli i'r gwasanaeth

Nid yw'n ofynnol ar y Cyngor i gynyddu treth y cyngor neu renti tai i wneud iawn am ddibrisiad, colledion amhariad nac amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud darpariaeth flynyddol o refeniw i gyfrannu tuag at leihau ei ofyniad benthyca at ei gilydd (hafal i o leiaf 4% (heblaw HRA) a 2% (HRA) o'r swm sylfaenol a fesurwyd gan y Gofyniad Codi Cyfalaf).

Felly, mae dibrisiad, colledion amhariad ac amorteiddiadau'n cael eu disodli gan ddarpariaeth gyllidol yn y Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor / Gweddill HRA trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

12 GWARIANT CYLLIDOL A GYLLIDWYD O GYFALAF TRWY STATUD

Mae deddfwriaeth yng Nghymru'n caniatáu dosbarthu rhywfaint o wariant fel cyfalaf at ddibenion cyllido pan nad yw'n arwain at greu ased diriaethol. Diddymwyd gwariant yn ystod y flwyddyn fel gwariant i gyfrif cyllid y gwasanaethau perthnasol yn y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu talu am y gwariant o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli, neu drwy gymryd benthyg, yna mae trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi allan y symiau a godwyd yn y Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor, fel nad oes unrhyw yn effaith ar dreth y cyngor.

13 PRYDLESI

Prydlesi Cyllidol
Mae Datganiad o Arferion Cyfrifyddu Safonol 21 (SSAP 21) yn diffinio prydles gyllidol fel prydles sy'n trosglwyddo i bob diben holl beryglon a gwobrau perchenogaeth ased i'r prydlesai, a gwerth presennol lleiafswm y taliadau prydles yn 90%, neu fwy, o werth teg yr ased ar brydles. Os yw prydles yn gymwys fel prydles gyllidol dan SSAP 21 yna caiff gwerth yr ased ei drin fel gwariant cyfalaf, a'i gydnabod ym mantolen y Cyngor fel ased sefydlog, gydag atebolrwydd cyfatebol. Caiff taliadau rhent dan brydlesi cyllidol eu dosrannu rhwng y taliad ariannol a gostyngiad yr atebolrwydd, gyda'r taliad ariannol yn cael ei neilltuo i, a'i godi ar, gyllid dros gyfnod y brydles (gwelwch nodiadau 22 a 24 ar y Datganiadau Ariannol Creiddiol).

Prydlesi Gweithredu
Os yw prydles yn ateb diffiniad SSAP 21 o brydles weithredu, yna caiff y taliadau dan y brydles eu codi ar gyfrifon cyllid y gwasanaethau. Caiff manylion prydlesi gweithredu'r Cyngor eu hamlinellu yn nodyn 21 ar y Datganiadau Ariannol Creiddiol.

14 YMRWYMIADAU ARIANNOL

Caiff ymrwymiadau ariannol eu mesur i ddechrau am werth teg a'u dwyn ymlaen am eu cost wedi'i hamorteiddio. Seiliwyd taliadau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant am log taladwy ar swm yr ymrwymiad sy'n cael ei ddwyn ymlaen, wedi ei luosi â'r gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Am y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Cyngor, mae hyn yn golygu bod y swm sy'n cael ei gyflwyno ar y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy a'r llog a godwyd ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yw'r swm taladwy am y flwyddyn, fel y penderfynwyd yng nghytundeb y benthyciad.

Caiff enillion a cholledion wrth adbrynu neu dalu benthyciadau'n ôl yn gynnar eu credydu neu ddebydu i Wariant Gweithredu Clir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ym mlwyddyn yr adbryniant neu setliad. Fodd bynnag, pan fo adbrynu wedi digwydd fel rhan o ad-drefnu'r portffolio benthyciadau, sy'n golygu newid neu gyfnewid offerynnau presennol, caiff y premiwm neu ostyngiad yn ôl eu trefn gael eu tynnu o, neu ychwanegodd at, gost y benthyciad newydd neu addasedig wedi'i amorteiddio, a chaiff y dibrisiad i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ei wasgaru dros oes y benthyciad trwy addasiad i'r gyfradd log effeithiol.

Lle codwyd premiymau a gostyngiadau ar y Cyfrif Incwm a Gwariant, mae rheoliadau'n caniatáu gwasgaru'r effaith ar Gronfa'r Cyngor / HRA dros flynyddoedd a ddaw. Mae gan y Cyngor bolisi o wasgaru'r ennill / colled dros oes y benthyciad amnewid, heblaw yn achos y HRAi lle bo credyd / taliad dros oes y benthyciad gwreiddiol, hyd at uchafswm o ddeng mlynedd. Caiff y cysoniad rhwng symiau a godwyd ar y Cyfrif Incwm a Gwariant a'r taliad clir sydd ei angen ar gyfer Gweddill Cronfa'r Cyngor / HRA ei reoli trwy drosglwyddiad, i neu o, y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yng Ngweddill y Datganiad Symudiad yng Nghronfa'r Cyngor / HRA.

15 ASEDAU ARIANNOL

Dosbarthwyd asedau ariannol yn ddau fath:

- benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy (fel buddsoddiadau, dyledwyr hirdymor a masnachol) – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu bendant, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedau ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris a ddyfynnwyd ar y farchnad a/neu sydd heb daliadau sefydlog neu bendant.

Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy

Caiff benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy eu mesur i ddechrau am werth teg, a'u dwyn ymlaen am eu cost wedi'i hamorteiddio. Seiliwyd credydau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, am log derbyniadwy, ar swm dwyn ymlaen yr ased wedi ei luosi â chyfradd log effeithiol yr offeryn ariannol. Am y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Cyngor, y swm a gyflwynwyd ar y Fantolen yw'r prifswm heb ei dalu sy'n dderbyniadwy, a'r llog a gredydwyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yw'r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn fel y penderfynwyd yng nghytundeb y benthyciad.

Lle caiff asedau eu nodi ag amhariad, oherwydd tebygolrwydd yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau dyledus dan gontract y benthyciad yn cael eu gwneud, caiff yr ased ei ddibrisio a chaiff taliad ei wneud i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio wrth ddatgydnabod yr ased eu credydu / debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Asedau ar Gael i'w Gwerthu

Caiff asedau ar gael i'w gwerthu eu mesur i ddechrau a'u dwyn ymlaen am werth teg. Lle bo gan yr ased daliadau sefydlog neu bendant, seiliwyd credydau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, am log derbyniadwy, ar gost yr ased wedi'i hamorteiddio, wedi ei luosi â'r gyfradd log effeithiol am yr offeryn. Lle nad oes unrhyw daliadau sefydlog neu bendant, caiff incwm (e.e. difidendau) ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant pan ddaw'n dderbyniadwy gan y Cyngor.

Caiff asedau eu cynnal ar y Fantolen am werth teg. Seiliwyd gwerthoedd ar yr egwyddorion canlynol:

- offerynnau gyda phrisiau dyfynedig y farchnad – pris y farchnad
- offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol
- cyfranddaliadau ecwiti heb brisiau dyfynedig y farchnad - gwerthusiad annibynnol o brisiadau cwmnïau.

Caiff newidiadau mewn gwerth teg eu cydbwyso gan gofnod yn y Gronfa Ar gael i'w Gwerthu a chaiff yr ennill / colled ei gydnabod yn y Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig (STRGL). Yr eithriad yw pan fu colledion amhariad - caiff y rhain eu debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, ynghyd ag unrhyw gynnydd / colled glir ar gyfer yr ased sydd wedi cronni yn y Gronfa.

Lle caiff asedau eu nodi ag amhariad, oherwydd tebygolrwydd yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu gwneud, caiff yr ased ei ddibrisio a chaiff taliad ei wneud i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio wrth ddatgydnabod yr ased eu credydu / debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, ynghyd ag unrhyw groniad enillion / colledion a gydnabuwyd o'r blaen yn y STRGL.

Pan nad oes modd mesur gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr offeryn ei ddwyn ymlaen am y gost (llai unrhyw golledion amhariad).

16 MENTER CYLLID PREIFAT (PFI)

Cytundeb yw contract PFI i dderbyn gwasanaeth, lle mae'r cyfrifoldeb dros weld bod yr asedau sefydlog ar gael sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth yn trosglwyddo i'r contractwr PFI. Gan mai'r dyb yw bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu dan ei gynllun PFI ac y bydd perchenogaeth yr asedau sefydlog yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contract, heb ddim cost ychwanegol, mae'r Cyngor yn dal yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd, dan y contract ar y Fantolen.

Yn cydbwyso cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau sefydlog hyn mae cydnabyddiaeth o atebolrwydd am symiau dyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau.

Caiff asedau sefydlog sy'n cael eu cydnabod ar y Fantolen eu hadbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, peiriannau ac offer ym meddiant y Cyngor.

Caiff y symiau taladwy i'r gweithredwr PFI bob blwyddyn eu dadansoddi'n bum elfen:

- gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant
- costau cyllid – codi llog o 15.253% ar ddyled ar y Fantolen, wedi'i ddebydu i Log Taladwy a Thaliadau Tebyg yn y Cyfrif Incwm a Gwariant
- rhent digwyddiadol – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, wedi'i ddebydu i'r Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg yn y Cyfrif Incwm a Gwariant
- taliad tuag at ddyled – wedi'i gymhwyso i ddibrisio dyled y Fantolen tuag i'r gweithredwr PFI
- costau adnewyddu cylchred oes – yn cael eu cydnabod fel asedau sefydlog ar y Fantolen

17 GRANTIAU A CHYFRANIADAU'R LLYWODRAETH

Caiff grantiau a chyfraniadau eraill y llywodraeth eu cyfrif ar sail croniadau, h.y. cânt eu cydnabod fel incwm ar y dyddiad y mae'r Cyngor yn cyflawni amodau'r hawl i'r grant neu gyfraniad.

Caiff grantiau cyllid eu cyfateb mewn cyfrifon cyllid gyda gwariant y gwasanaeth y maent yn berthnasol iddo. Caiff grantiau ar gyfer gwariant cyffredinol, e.e. Grant Cynnal Cyllid, eu credydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar ôl Gwariant Gweithredu Clir.

Pan fo modd dynodi grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd gyferbyn ag asedau sefydlog gydag oes fuddiol gyfyngedig, caiff y symiau eu credydu i Gyfrif Gohiriedig Grantiau'r Llywodraeth. Yna caiff y gweddill eu dibrisio trwy gredydu'r gwasanaeth perthnasol, dros oes fuddiol yr asedau, i gyfateb i'r dibrisiad a godwyd ar yr ased perthnasol.

18 TRETH AR WERTH (TAW)

Cynhwyswyd TAW mewn cyfrifon incwm a gwariant, boed o natur gyfalafol neu gyllidol, yn unig i'r graddau y mae'n anadferadwy.

19 COSTAU GWASANAETH ATEGOL CANOLOG AC ADRANNOL

Neilltuwyd holl gostau gwasanaeth ategol a chostau cyffredinol, heb eu diffinio fel Costau Annosbarthedig neu Graidd Democrataidd Corfforaethol, yn llawn i wasanaethau. Sail y neilltuad yn bennaf oedd y gwir amser a dreuliwyd gan swyddogion ar bob gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhannwyd costau adeiladau gweinyddol ar sail arwynebedd llawr sy'n cael ei ddal gan bob gwasanaeth.

Costau Annosbarthedig

Dosbarth yw hwn o gostau a ddiffiniwyd gan BVACOP. Mae'n cynnwys:

a) costau gwasanaethu'r gorffennol, gan gynnwys setliadau a chwtogiadau perthnasol i fudd-daliadau ymddeol
b) costau cysylltiedig â rhannau TG na ddefnyddiwyd
c) costau rhannu asedau eraill diddefnydd ond anwireddadwy hirdymor

Craidd Democrataidd Corfforaethol

Caiff holl gostau cysylltiedig â gweithgaredd aelod a rheoli corfforaethol eu codi ar y gwasanaeth hwn.

20 BUDD-DALIADAU YMDDEOL

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau dau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiynau Athrawon, yn cael ei weinyddu gan Asiantaeth Pensiynau Athrawon
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint

Mae'r ddau gynllun yn darparu budd-daliadau diffiniedig i'r aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion pan oeddent yn gweithio i'r Cyngor ac yn berthnasol i'r cyflog terfynol a hyd y gwasanaeth.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun Athrawon yn golygu na all y Cyngor nodi ymrwymiadau'r budd-daliadau hyn. Mae cyfrif am y cynllun, felly, fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig – nid oes atebolrwydd am dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn cael ei gydnabod ar y Fantolen a chaiff cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn eu codi ar y cyfrifon cyllid.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan holl staff eraill, yn amodol ar rai meini prawf cymhwyso, hawl i ddod yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Caiff y costau pensiwn sy'n cael eu codi ar gyfrifon y Cyngor o ran y grŵp hwn o gyflogeion eu penderfynu gan weinyddwyr y gronfa ac maent yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniadau cyflogeion i'r cynllun pensiwn buddsoddion hwn.

Caiff y Cynllun Llywodraeth Leol ei gyfrif amdano fel cynllun buddiant diffiniedig:

- Caiff rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn sydd i'w priodoli i'r Cyngor eu cynnwys ar y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn cysylltiad â budd-daliadau ymddeol a enillwyd hyd yma gan gyflogeion, seiliedig ar dybiaethau fel cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant cyflogeion a rhagamcaniadau enillion gweithwyr presennol.

- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio a gyfrifwyd fel cyfartaledd pwysol o "elwau ar y pryd" ar fondiau corfforaethol gradd AA.

- Caiff asedau Cronfa Bensiynau Clwyd sydd i'w priodoli i'r Cyngor eu cynnwys ar y Fantolen am eu gwerth teg, fel y penderfynwyd gan actiwari'r Gronfa:
    - Gwarannau a ddyfynnir – pris cynnig cyfredol
    - Gwarannau heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
    - Gwarannau unedoledig – pris cynnig presennol
    - Eiddo – gwerth y farchnad

20 BUDD-DALIADAU YMDDEOL (parhad)

- Caiff y newid yn yr atebolrwydd pensiynau clir ei ddadansoddi'n saith cydran:
    - Cost Gwasanaeth Presennol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – wedi'i neilltuo i gyfrifon cyllid gwasanaethau y gweithiodd cyflogeion iddynt.
    - Costau Gwasanaeth y Gorffennol – y cynnydd mewn ymrwymiadau'n deillio o benderfyniadau'r flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn berthnasol i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – yn cael eu codi ar Gost Glir Gwasanaethau fel rhan o Gostau Annosbarthedig.
    - Cost Llogau – y cynnydd disgwyliedig yng ngwerth presennol ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn wrth iddynt symud flwyddyn yn nes at gael eu talu – i'w godi ar Wariant Gweithredu Clir.
    - Elw Disgwyliedig ar Asedau – yr elw blynyddol o fuddsoddi ar y gronfa asedau i'w briodoli i'r Cyngor, seiliedig ar yr elw hirdymor disgwyliedig ar gyfartaledd – i'w gredydu i Wariant Gweithredu Clir.
    - Enillion / Colledion ar Setliadau a Chwtogiadau – canlyniad camau i ryddhau'r Cyngor o ymrwymiadau neu ddigwyddiadau sy'n lleihau gwasanaeth disgwyliedig y dyfodol neu gronni budd-daliadau cyflogeion – i'w codi ar Gost Glir Gwasanaethau fel rhan o Gostau Annosbarthedig.
    - Enillion a Cholledion Actiwaraidd – newidiadau yn yr atebolrwydd pensiynau clir sy'n deillio oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â'r hyn a dybiwyd ym mhrisiad diwethaf yr actiwari neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu tybiaethau – nid yw'n cael ei godi ar gyllid.
    - Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa Bensiynau – arian a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn.

Mae darpariaethau statudol yn cyfyngu'r Cyngor i godi treth y cyngor ar gyfer y symiau sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn yn y flwyddyn. Yn y Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor mae hyn yn golygu bod neilltuad i'r Pensiynau Wrth Gefn i ddileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau ymddeol a'u disodli gyda'r taliad am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac unrhyw symiau sy'n daladwy i'r gronfa ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae rhagor o fanylion yn nodyn 32 i'r Datganiadau Ariannol Creiddiol.

Y canlynol fu effeithiau cyfrif am Fudd-daliadau Ymddeol FRS17 ar ganlyniadau cyfnodau cyfredol a blaenorol:

- Arhosodd y swm llawn i'w dalu allan o grantiau'r Llywodraeth a threthiant lleol yn ddigyfnewid, ond mae'r costau a ddadlennwyd ar gyfer gwasanaethau unigol 44.4% yn is (33.65% yn is yn 2008/09), ar ôl rhoi costau cyfredol gwasanaethau yn lle cyfraniadau'r cyflogwr, ac mae Gwariant Gweithredu Clir 6.1% yn uwch (9.1% yn uwch yn 2008/09) nag a fyddai wedi bod fel arall.
- Mae'r gofyniad i gydnabod yr atebolrwydd pensiwn clir ar y fantolen wedi gostwng 33.54% ar werth clir datganedig y Cyngor (a ostyngodd 30.7% yn 2008/09).

Budd-daliadau Dewisol

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig hefyd i wneud dyfarniadau dewisol o fudd-daliadau ymddeol o ran ymddeoliadau cynnar. Caiff unrhyw ymrwymiadau a amcangyfrifwyd, fydd yn deillio o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys athrawon) eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan roi cyfrif amdanynt trwy ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU DROS Y DATGANIAD CYFRIFON

Yn ôl y Cod Ymarfer, mae gofyn i'r Cyngor gynnwys Datganiad o Gyfrifoldebau yn y Datganiad Cyfrifon sy'n dangos gwahanol gyfrifoldebau'r Cyngor, a'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad o ran y Cyfrifon hyn.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae gofyn i'r Cyngor wneud trefniadau:

- ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y cyngor hwn y cyfryw swyddog yw'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad;
- i reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnyddio adnoddau'n economaidd, effeithlon ac effeithiol a gwarchod ei asedau;
- i dderbyn y Datganiad Cyfrifon.

……

Cydgadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad

Y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod, yn unol ag arferion priodol ar sail Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (SORP).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna wedi'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrif oedd yn rhesymol a gochelgar;
- cydymffurfio â SORP llywodraeth leol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad hefyd wedi:

- cadw cyfrifon priodol oedd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon uchod yn unol â SORP awdurdodau lleol, ac mae'n cyflwyno sefyllfa ariannol y Cyngor yn gywir a theg ar y dyddiad cyfrifyddu, a'i incwm a gwariant am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010.

……

MARK S OWEN CPFA

Chief Finance and Performance Officer

CYFRIF INCWM A GWARIANT

2008/09 Ailddatganiad Gwariant Clir £'000		Nodyn	2009/10 Gwariant Crynswth £'000	Income £'000	Gwariant Clir £'000
1,756	Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		2,484	(924)	1,560
201	Gwasanaethau Llys		383	(198)	185
28,999	Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio		61,719	(21,224)	40,495
103,050	Gwasanaethau Plant ac Addysg		148,028	(28,384)	119,644
8,107	Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant		21,383	(6,158)	15,225
6,618	Tai'r Awdurdod Lleol (HRA)		51,488	(36,958)	14,530
3,460	Gwasanaethau Tai Eraill		52,717	(48,872)	3,845
37,678	Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion		53,894	(14,762)	39,132
3,723	Craidd Corfforaethol a Democrataidd		3,797	(1)	3,796
340	Costau Annosbarthedig		1,035	(461)	574
193,932	**Cost Glir Gwasanaethau**	2	**396,928**	**(157,942)**	**238,986**
84	Colled ar waredu asedau sefydlog / Costau gweinyddol cysylltiedig â gwaredu asedau sefydlog				435
	Archebiannau ac Ardollau:				
5,882	Awdurdod Tân Gogledd Cymru				6,087
9,560	Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru				10,058
1,699	Cynghorau Cymuned				1,748
8,150	Llog taladwy a thaliadau tebyg	31			9,288
(2,935)	Llog ac Incwm o Fuddsoddiad	31			(841)
7,925	Cost llogau pensiwn ac elw disgwyliedig ar asedau pensiwn	32			11,484
224,297	**Gwariant Gweithredu Clir**				**277,245**
(53,171)	Treth y Cyngor	10			(55,310)
(117,485)	Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth				(121,999)
(34,528)	Ailddosbarthiad Ardrethi Annomestig	11			(35,605)
19,113	**Diffyg Clir am y flwyddyn**				**64,331**

DATGANIAD SYMUDIAD YNG NGWEDDILL CRONFA'R CYNGOR

Mae'r datganiad cysoni hwn yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng yr alldro ar y Cyfrif Incwm a Gwariant (I&E) a Gweddill Cronfa'r Cyngor.

2008/09 £'000		Nodyn	2009/10 £'000	£'000
19,113	**Diffyg yn y Cyfrif I&E am y flwyddyn**			**64,331**
	Symiau sydd yn y Cyfrif I&E ond sy'n ofynnol trwy statud i'w gadael allan wrth benderfynu Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn			
(50)	Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol	39	(146)	
(26,847)	Dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog	39	(77,017)	
1,682	Amorteiddiad Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth	39	2,345	
1,896	Amorteiddiad grantiau sy'n cyllido gwariant cyfalaf annyrchafedig	39	4,273	
(419)	Gwariant Cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud	39	(1,039)	
465	Incwm Cyllid a ddiffiniwyd fel trwy statud	43	490	
(2)	Colled glir ar werthu asedau sefydlog		(435)	
220	Swm y mae costau cyllid a gyfrifwyd yn unol â SORP yn wahanol i swm y costau cyllid a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol	42	213	
(20,228)	Taliadau clir a wnaed ar gyfer budd-daliadau ymddeol yn unol â FRS17	32	(19,747)	
(43,283)				**(91,063)**
	Symiau heb fod yn y Cyfrif I&E ond sy'n ofynnol eu cynnwys trwy statud wrth benderfynu'r Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn			
5,350	Isafswm darpariaeth gyllid ar gyfer codi cyfalaf	39	6,948	
5,173	Gwariant cyfalaf a godwyd yn ystod y flwyddyn ar Weddill Cronfa'r Cyngor	39	4,171	
18,545	Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiynau Clwyd	32	18,610	
29,068				**29,729**
	Trosglwyddiadau i neu o Weddill Cronfa'r Cyngor sy'n ofynnol eu cyfrif wrth benderfynu'r Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn			
(850)	Gweddill y Cyfrif Cyllid Tai	37	162	
(2,708)	Trosglwyddiad clir i neu o'r adnoddau wrth gefn a glustnodwyd	40	(2,198)	
(3,558)				**(2,036)**
1,340	**(Cynnydd) / Gostyngiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn**			**961**
(10,267)	**Gweddill Cronfa'r Cyngor a ddygwyd ymlaen**			**(8,927)**
(8,927)	**Gweddill Cronfa'r Cyngor i'w ddwyn ymlaen**			**(7,966)**

DATGANIAD SYMUDIAD YNG NGWEDDILL CRONFA'R CYNGOR

Y canlynol yw dadansoddiad o Weddill Cronfa'r Cyngor:

2008/09 Cyfanswm £'000		Cronfa'r Cyngor £'000	2009/10 Ysgolion £'000	Cyfanswm £'000
(10,267)	Gweddill a ddygwyd ymlaen	(6,952)	(1,975)	(8,927)
1,340	Gostyngiad yn y gweddill	(66)	1,027	961
(8,927)	Gweddill i'w ddwyn ymlaen	(7,018)	(948)	(7,966)

Mae'r Cyfrif I&E yn dangos gwir berfformiad ariannol y Cyngor am y flwyddyn, a fesurwyd yn nhermau'r adnoddau a ddefnyddiwyd ac a gynhyrchwyd, dros y deuddeg mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor godi treth y cyngor ar wahanol sail gyfrifyddu, a'r prif wahaniaethau yw:

a) Caiff buddsoddiad cyfalaf ei gyfrif amdano wrth ei gyllido, yn hytrach nag wrth ddefnyddio'r asedau sefydlog.

b) Caiff budd-daliadau ymddeol eu codi fel symiau taladwy i gronfeydd pensiwn a phensiynwyr, yn hytrach nag wrth ennill budd-daliadau'r dyfodol.

Mae Gweddill Cronfa'r Cyngor yn cymharu gwariant y Cyngor gyferbyn â threth y cyngor sy'n cael ei chodi am y flwyddyn, gan ystyried defnyddio adnoddau wrth gefn a gronnwyd yn y gorffennol, a chyfraniadau at adnoddau wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

DATGANIAD CYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

2008/09 £'000		Nodyn	2009/10 £'000
19,113	Diffyg am y flwyddyn ar y Cyfrif I&E		64,331
(10,612)	(Gwarged) yn deillio o adbrisio asedau sefydlog	38	(207,194)
(8,868)	Colledion / (enillion) actiwaraidd ar asedau a dyledion y gronfa bensiwn	33	61,539
(367)	**Cyfanswm colledion / (enillion) cydnabyddedig am y flwyddyn**	37	**(81,324)**

MANTOLEN

31 Mawrth 2009 Restated £'000		Nodyn	31 Mawrth 2010 £'000	£'000
168	**Asedau Sefydlog Anniriaethol**	12		500
	Asedau Diriaethol Sefydlog	14		
	Asedau Gweithredol:			
333,898	Anheddau'r Cyngor		441,068	
258,815	Tir ac Adeiladau Eraill		318,201	
4,980	Cerbydau, Cyfarpar, Dodrefn ac Offer		10,312	
52,199	Asedau Isadeiledd		56,348	
22,996	Asedau Cymunedol		23,027	848,956
	Asedau Anweithredol:			
1,281	Eiddo buddsoddi		579	
1,466	Asedau'n cael eu hadeiladu		680	
11,479	Asedau dros ben a ddaliwyd i'w gwared		12,476	13,735
687,282	**Cyfanswm Asedau Sefydlog**			**863,191**
0	Buddsoddiadau Hirdymor	30	0	
331	Dyledwyr Hirdymor	20	293	293
687,613	**Cyfanswm Asedau Hirdymor**			**863,484**
	Asedau Cyfredol			
821	Stociau a Gwaith ar y Gweill		678	
24,005	Dyledwyr	26	27,214	
(3,115)	llai: darpariaeth ar gyfer drwgddyledion		(3,533)	
1,069	Taliadau ymlaen llaw		522	
39,591	Buddsoddiadau byrdymor	30	34,153	59,034
749,984	**Cyfanswm Asedau**			**922,518**
	Rhwymedigaethau Cyfredol			
(2,064)	Benthyca Byrdymor	29	(5,831)	
(18,745)	Credydwyr		(17,481)	
(337)	Derbyniadau ymlaen llaw		(241)	
(2,757)	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghymwysedig	25	(3,553)	
(1,096)	Arall		(1,695)	
(2,765)	Gorddrafft Banc	46	(4,541)	(33,342)
722,220	**Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau Cyfredol**			**889,176**
	Rhwymedigaethau Hirdymor			
(131,628)	Benthyca Hirdymor	29		(129,185)
(5,985)	Darpariaethau	27		(5,945)
(75,937)	Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth	28		(85,937)
(787)	Rhwymedigaethau Gohiriedig	24		(16,226)
(156,053)	Rhwymedigaeth gysylltiedig â chynllun pensiwn buddi	33		(218,729)
351,830	**Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau**			**433,154**
	I'w gyllido gan:			
22,619	Cronfa Ailbrisio	38		226,045
454,410	Cyfrif Addasu Cyfalaf	39		398,248
(2,819)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	42		(2,606)
12,438	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn	43		11,986
127	Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	44		99
(156,053)	Pensiynau Wrth Gefn			(218,729)
(5,600)	Cyfrif Ôl-daliadau Cyflogau Anghyfartal			(5,600)
6,952	Gweddill Cronfa'r Cyngor			7,018
1,975	Gweddillion Ysgolion			948
3,247	Gweddill y Cyfrif Cyllid Tai			3,409
14,534	Adnoddau wrth Gefn a Glustnodwyd	40		12,336
351,830	**Cyfanswm Gwerth Clir**			**433,154**

DATGANIAD LLIF ARIAN

Ailddatganwyd 2008/09 £'000		Nodyn	2009/10 £'000	£'000
	Gweithgareddau Cyllidol			
	All-lifoedd Arian			
163,867	Arian a dalwyd i ac ar ran cyflogeion		165,549	
133,263	Taliadau arian gweithredu arall		129,487	
9,048	Budd-dal Tai a dalwyd		13,241	
11,260	Archebiannau a dalwyd		11,806	
317,438				320,083
	Mewnlifoedd arian			
(17,224)	Rhenti		(17,330)	
(44,788)	Derbyniadau Treth y Cyngor		(46,064)	
(34,528)	Derbyniadau ardreth annomestig genedlaethol o'r gronfa gen	11	(35,605)	
(117,485)	Grantiau'r llywodraeth heb eu priodoli i wasanaethau penodol		(121,999)	
(37,344)	Grantiau DWP ar gyfer budd-daliadau		(43,473)	
(32,348)	Grantiau eraill y llywodraeth	50	(35,490)	
(16,709)	Arian a dderbyniwyd am nwyddau a gwasanaethau		(17,095)	
(22,686)	Derbyniadau arian gweithredu eraill		(20,978)	
(323,112)				(338,034)
(5,674)	**Arian Parod Clir (mewnlif) o Weithgareddau Cyllidol**	49		**(17,951)**
	Elw ar Fuddsoddiadau a Chynnal Cyllid			
	All-lifoedd arian			
8,108	Llog a dalwyd		8,055	
23	Elfen log taliadau rhent prydlesi cyllidol		26	
0	Elfen log PFI		1,159	
	Mewnlifoedd arian			
(2,889)	Llog a dderbyniwyd		(1,905)	
5,242				7,335
	Gweithgareddau Cyfalaf			
	All-lifoedd arian			
26,825	Prynu asedau sefydlog		29,887	
3,635	Taliadau eraill arian cyfalaf		4,821	
	Mewnlifoedd arian			
(994)	Gwerthu asedau sefydlog	43	(773)	
(19,905)	Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	50	(21,196)	
(515)	Derbyniadau eraill arian cyfalaf		(528)	
9,046				12,211
8,614	**All-lif arian parod clir cyn ariannu**			**1,595**
	Rheoli Adnoddau Hylifol			
(7,773)	Gostyngiad clir mewn adneuon byrdymor	47	(4,369)	
66	Cynnydd clir mewn adnoddau hylifol eraill	47	4,285	
	Ariannu			
	All-lifoedd arian			
675	Ad-daliadau o'r swm a fenthycwyd	48	742	
88	Elfen gyfalafol taliadau rhent prydlesi cyllidol	24	1,542	
	Mewnlifoedd arian			
(1,900)	Benthyciadau newydd a gymrwyd		0	
0	Benthyciadau byrdymor newydd	48	(2,019)	
(1,137)	**All-lif / (mewnlif) arian clir trwy ariannu**			**181**
(230)	**Gostyngiad / (Cynnydd) mewn arian parod**	47		**1,776**

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CREIDDIOL

1. Addasiad y Flwyddyn Cynt

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu gofynion y SORP i:

a) cynnwys holl incwm treth y cyngor yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor ac archebiant Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru i'w gyflwyno fel gwariant y Cyngor.

Mae'r effaith ar y ffigurau cymharol ar gyfer 2008/09 yn y Cyfrif Incwm a Gwariant fel a ganlyn:

	Fel y datganwyd o'r blaen yn 2008/09 £'000	**Addasiad (a) £'000**	**Fel yr ailadroddwyd 2008/09 £'000**
Archebiannau ac Ardollau:			
Awdurdod Tân Gogledd Cymru	5,882	0	5,882
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	0	9,560	9,560
Cynghorau Cymuned	1,699	0	1,699
Gwariant Gweithredu Clir	**214,737**	**9,560**	**224,297**
Treth y Cyngor	(43,611)	(9,560)	(53,171)
Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth	(117,485)	0	(117,485)
Ailddosbarthu Ardrethi Annomestig	(34,528)	0	(34,528)
Diffyg Clir am y flwyddyn	**19,113**	**0**	**19,113**

b) dadgydnabod dyledwyr Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) ym Mantolen y Cyngor ac, yn hytrach, cydnabod dyledwr am yr arian parod a gasglwyd oddi ar ddyledwyr NNDR ac a ordalwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC).

Mae'r effaith ar y ffigurau cymharol ar nodyn dyledwyr 2008/09 fel a ganlyn:

	Fel y datganwyd o'r blaen yn 2008/09 £'000	**Addasiad (b) £'000**	**Fel yr ailadroddwyd 2008/09 £'000**
Dyledwyr:			
Treth y Cyngor	4,266	0	4,266
Trethi Annomestig Cenedlaethol	1,469	(1,469)	0
Ôl-ddyledion Rhenti Tai	967	0	967
Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth - Cyllid	4,584	1,611	6,195
Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth - Cyfalaf	2,240	0	2,240
Dyledwyr Amrywiol / Masnachol	4,624	0	4,624
Arall	6,492	(779)	5,713
	24,642	**(637)**	**24,005**
Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion:			
Treth y Cyngor	2,006	0	2,006
Trethi Annomestig Cenedlaethol	260	(260)	0
Rhenti Tai	689	0	689
Dyledwyr Amrywiol / Masnachol	420	0	420
	3,375	**(260)**	**3,115**

1. Addasiad y flwyddyn cynt – parhad

c) trosglwyddo cyfran y dyledion ariannol hirdymor sydd i'w talu o fewn 12 mis fel dyledion cyfredol.

Mae effaith addasiadau (b) ac (c) ar y ffigurau cymharol ar gyfer 2008/09 yn y Fantolen fel a ganlyn:

	Fel y datganwyd o'r blaen yn 2008/09 £'000	Addasiadau (b) £'000	Addasiadau (c) £'000	Fel yr ailadroddwyd 2008/09 £'000
Asedau Hirdymor	**687,613**	**0**	**0**	**687,613**
Asedau Cyfredol				
Stociau a Gwaith ar y Gweill	821	0	0	821
Dyledwyr	24,642	(637)	0	24,005
llai: darpariaeth ar gyfer drwgddyledion	(3,375)	260	0	(3,115)
Taliadau ymlaen llaw	1,069	0	0	1,069
Buddsoddiadau byrdymor	39,591	0	0	39,591
Cyfanswm Asedau	**750,361**	**(377)**	**0**	**749,984**
Rhwymedigaethau Cyfredol				
Benthyca Byrdymor	(179)	0	(1,885)	(2,064)
Credydwyr	(19,122)	377	0	(18,745)
Derbyniadau ymlaen llaw	(337)	0	0	(337)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghymwysedig	(2,757)	0	0	(2,757)
Arall	(1,096)	0	0	(1,096)
Gorddrafft Banc	(2,765)	0	0	(2,765)
Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau Cyfred	**724,105**	**0**	**(1,885)**	**722,220**
Rhwymedigaethau Hirdymor				
Benthyca hirdymor	(133,513)	0	1,885	(131,628)
Darpariaethau	(5,985)	0	0	(5,985)
Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth	(75,937)	0	0	(75,937)
Rhwymedigaethau Gohiriedig	(787)	0	0	(787)
Rhwymedigaeth gysylltiedig â chynllun pensiwn buddiant diffiniedig	(156,053)	0	0	(156,053)
Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau	**351,830**	**0**	**0**	**351,830**

Mae effaith addasiad (b) ar ffigurau cymharol cysoniad 2008/09 o nodyn Llif Arian Gweithgareddau Cyllid I&E fel a ganlyn:

Diffyg am y flwyddyn	19,113	0	0	19,113
Llog clir	(5,242)	0	0	(5,242)
Trafodion heblaw arian parod	(24,798)	0	0	(24,798)
Eitemau ar Sail Croniadau:				
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Stociau	(35)	0	0	(35)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Dyledwyr	(41)	41	0	0
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Taliadau Ymlaen Lla	751	0	0	751
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Credydwyr	4,661	(107)	0	4,554
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Derbyniadau Ymlaen	(17)	0	0	(17)
Mewnlif arian clir o weithgareddau cyllidol	**(5,608)**	**(66)**	**0**	**(5,674)**

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CREIDDIOL

1. Addasiad y flwyddyn cynt – parhad

Mae effaith addasiadau (b) ar y ffigurau cymharol ar gyfer 2008/09 yn y Llif Arian fel a ganlyn:

	2008/09 £'000	Addasiad (b) £'000	Fel yr ailadroddwyd 2008/09 £'000
Gweithgareddau Cyllid			
All-lifoedd arian			
Arian parod a dalwyd i ac ar ran cyflogeion	163,867	0	163,867
Taliadau arian parod gweithredu eraill	133,186	77	133,263
Budd-dal Tai a dalwyd	9,048	0	9,048
Taliadau Trethi Annomestig Cenedlaethol i'r gronfa genedlaet	35,840	(35,840)	0
Archebiannau a dalwyd	11,260	0	11,260
	353,201	(35,763)	317,438
Mewnlifoedd arian			
Rhenti	(17,224)	0	(17,224)
Derbyniadau Treth y Cyngor	(44,788)	0	(44,788)
Derbyniadau Trethi Annomestig Cenedlaethol o'r gronfa gene	(35,583)	1,055	(34,528)
Derbyniadau Trethi Annomestig	(34,880)	34,880	0
Grantiau'r llywodraeth heb eu priodoli i wasanaethau penodol	(117,485)	0	(117,485)
Grantiau DWP ar gyfer budd-daliadau	(37,344)	0	(37,344)
Grantiau eraill y llywodraeth	(32,348)	0	(32,348)
Arian parod a dderbyniwyd am nwyddau a gwasanaethau	(16,709)	0	(16,709)
Derbyniadau arian parod gweithredu eraill	(22,448)	(238)	(22,686)
	(358,809)	35,697	(323,112)
Arian parod clir (mewnlif) o Weithrediadau Cyllid	**(5,608)**	**(66)**	**(5,674)**
All-lif arian clir cyn ariannu	**8,680**	**(66)**	**8,614**
Rheoli Adnoddau Hylifol			
Gostyngiad clir mewn adnoddau hylifol eraill	0	66	66
Gostyngiad clir mewn adneuon byrdymor	(7,773)	0	(7,773)
(Mewnlif) arian parod clir o ariannu	(1,137)	0	(1,137)
(Cynnydd) mewn arian parod	**(230)**	**0**	**(230)**

2. Cost Glir Gwasanaethau

Caiff dadansoddiad o wariant gwasanaeth ei baratoi'n unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau CIPFA (BVACOP).

3. Lwfansau aelodau

Yn 2009/10 talwyd lwfansau'n dod i £1,013k (£990k yn 2008/09) i Aelodau'r Cyngor.

4. Taliadau Swyddogion

(a) Dan 7A (1) (a) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2010, mae gofyn i'r Cyngor ddadlennu nifer y cyflogeion (ac eithrio Uwch-swyddogion fel y nodwyd yn nodyn dadlennu b) isod oedd yn cael cydnabyddiaeth ac eithrio cyfraniadau pensiwn o £60k neu fwy mewn haenau o £5k:

2008/09				2009/10		
Ysgolion	**Eraill**	**Cyfanswm**	**Haenau Cyflogau**	**Ysgolion**	**Eraill**	**Cyfanswm**
3	1	4	£60,000 - £64,999	6	0	6
2	1	3	£65,000 - £69,999	2	1	3
2	5	7	£70,000 - £74,999	3	6	9
0	2	2	£75,000 - £79,999	1	0	1
0	1	1	£80,000 - £84,999	0	2	2
0	0	0	£85,000 - £89,999	1	0	1
1	0	1	£90,000 - £94,999	0	0	0

I'r diben hwn, mae cydnabyddiaeth yn berthnasol i holl symiau a dalwyd i, neu sy'n dderbyniadwy gan, gyflogai, gan gynnwys taliadau ar derfynu cyflogaeth, ac mae'n cynnwys lwfansau traul a gwerth budd-daliadau eraill sydd i'w rhoi yn erbyn treth.

(b) Dan 7A (1) (b) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2010, caiff y wybodaeth ganlynol ei darparu o ran cyflogeion a ddynodwyd fel Uwch-swyddogion ac sy'n cael cyflog rhwng £60,000 a £150,000:-

2008/09					2009/10			
Cyflog (yn cynnwys ffioedd a Lwfansau) £'000	**Taliadau Eraill £'000**	**Cyfraniadau Pensiwn £'000**	**Cyfanswm £'000**	**Manylion Deiliad y Swydd (Enw'r Swydd)**	**Cyflog (yn cynnwys ffioedd a Lwfansau) £'000**	**Taliadau Eraill £'000**	**Cyfraniadau Pensiwn £'000**	**Cyfanswm £'000**
107,472	15,233	27,061	149,766	Prif Weithredwr	107,472	6,058	25,014	138,544
94,320	752	20,939	116,011	Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad	94,320	843	20,939	116,102
94,320	685	20,939	115,944	Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad	94,320	809	20,939	116,068
94,320	777	20,939	116,036	Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad	0	0	0	0
70,740	627	15,704	87,071	Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad	0	0	0	0
81,517	787	18,097	100,401	Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad	81,521	832	18,097	100,450
81,015	2,337	17,985	101,337	Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Demo	81,015	0	17,985	99,000
80,016	814	17,763	98,593	Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol	80,016	838	17,763	98,617
76,241	735	16,925	93,901	Prif Swyddog Dysgu a Chyflawniad	73,125	828	16,234	90,187

c) Yn unol ag Adran 7A (2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2010, mae gofyn i'r Cyngor enwi Uwch-swyddog a gafodd gyflog o £150k neu fwy. Nid oedd y Cyngor yn cyflogi Uwch-swyddog ar gyflog o £150k neu fwy yn ystod y flwyddyn ariannol.

5. Incwm a Gwariant yr Asiantaeth

Mae gan y Cyngor gytundeb gyda Chyngor Gwynedd, awdurdod arweiniol Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, bod y Cyngor yn gyfrifol am gynnal priffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol.
Mae Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r Cyngor am y gwaith hwn, gan gynnwys cyfraniad tuag at gostau gweinyddol. Crynodeb yw'r canlynol o wariant ar y gweithgaredd, sydd heb fod yn rhan o'r I&E:

2008/09 £'000		2009/10 £'000
289	Cynlluniau Penodol	346
214	Cynnal a Chadw Rheolaidd	188
38	Goleuadau Stryd	48
96	Cynnal yn y Gaeaf	102
77	Arall	107
117	Costau Gweinyddol	164
831		955

O ran Cynlluniau Penodol, y prif gynlluniau a wnaed yn ystod 2009/10 oedd yr A5 Hendre Arddwyfan ac ailwynebu'r A483 ffordd ymadael / ymuno Gresffordd ac ailwynebu'r A483 Cefn Bychan.

6. Deddf Iechyd – cyllid cronedig a threfniadau tebyg

Ar 8 Gorffennaf 2009 aeth y Cyngor i gytundeb â Chyngor Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru (Dwyrain), yn unol ag Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, at ddarparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol integredig dan drefniant cyllid cronedig. Enwebwyd Cyngor Sir y Fflint fel y partner arweiniol sy'n gyfrifol am weinyddu'r gronfa. Caiff y gwasanaeth ei weithredu o adeilad ym Mharc Busnes Penarlâg a ariannwyd gan grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff cyfran y Cyngor o gost yr adeilad (50%) ei chynnwys yn yr asedau sefydlog.

Mae incwm a gwariant crynswth y bartneriaeth am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2010 fel a ganlyn:

	2009/10 £'000
Gwariant	
Costau gweithredu	306
Offer safonol	153
Offer arbenigol	49
Offer ychwanegol	37
	545
Incwm	
Cyllid gofal iechyd parhaus	(37)
Gwariant Clir	508

Cyfraniad y Cyngor at gyllideb 2009/10 yw £163k.

7. Costau Archwiliad

Yn 2009/10 talodd y Cyngor y ffïoedd canlynol cysylltiedig ag archwiliadau ac arolygiadau allanol:

2008/09 £'000		2009/10 £'000
179	Ffïoedd taladwy i Swyddfa Archwilio Cymru o ran gwasanaethau archwilio allanol	159
70	Ffïoedd taladwy i Swyddfa Archwilio Cymru o ran arolygiadau statudol	0
0	Ffïoedd taladwy i Swyddfa Archwilio Cymru o ran Mesur Llywodraeth Leol	98
103	Ffïoedd taladwy i Swyddfa Archwilio Cymru am ardystio hawliadau a ffurflenni grant	78
4	Ffïoedd taladwy am wasanaethau eraill	1
356		336

8. Partïon Perthynol

Mae FRS8, sy'n cael ei ymgorffori yn y SORP, yn gofyn dadlennu trafodion partïon perthynol pan nad yw gwybodaeth o'r fath yn cael ei ddadlennu'n amlwg yn rhywle arall yn y datganiad cyfrifon. Mae gan y Cyngor drefniadau sy'n gofyn i Aelodau a Swyddogion nodi a dadlennu trafodion partïon perthynol.

Bydd y Cyngor yn penodi Aelodau i nifer o gyrff elusennol neu wirfoddol. Gwnaed taliadau'n dod i £1,343k i gyrff o'r fath trwy grantiau / cyfraniadau yn ystod 2009/10.

Mae rhai o Aelodau'r Cyngor yn cael eu cyflogi gan, neu'n aelodau o, sefydliadau sy'n archebu neu'n codi ar y Cyngor, neu'n derbyn grantiau gan y Cyngor. Yn ystod 2009/10 talwyd £16,540k i'r cyrff hyn e.e. Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Cwmni yw'r Fenter sy'n cyflogi Aelodau'r Cyngor, ac yn penodi Aelodau i'r Pwyllgor Rheoli. Talwyd £195k i'r cwmni hwn yn ystod 2009/10.

Caiff trafodion busnes perthnasol gyda'r Llywodraeth eu crynhoi yn nodyn 50.

9. Isafswm Darpariaeth Refeniw

Mae hon yn ddarpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled yn ôl gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifon) (Cymru) (Diwygio) 2010. Caiff isafswm y ddarpariaeth refeniw ei gyfrifo trwy gyfeirio at ddyledrwydd yr Awdurdod at ei gilydd.

2008/09 £'000		2009/10 £'000
341	Swm tai	326
4,737	Swm heblaw tai	5,080
272	Taliad am brif ran y rhenti prydles gyllidol sy'n daladwy yn y flwyddyn	301
0	PFI - ad-dalu rhwymedigaeth	1,241
5,350	Isafswm Darpariaeth Refeniw	6,948

10. Treth y Cyngor

Daw incwm treth y cyngor o daliadau sy'n cael eu codi yn ôl gwerth eiddo preswyl a ddosbarthwyd yn naw band prisio, gan ddefnyddio amcangyfrif o'r gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r diben hwn. Caiff taliadau eu cyfrifo trwy gymryd faint o incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru am y flwyddyn, a rhannu'r swm hwn â sail treth y cyngor. Sail treth y cyngor yw cyfanswm yr eiddo ymhob band wedi'i addasu yn ôl cyfran i drosi'r rhif yn gywerth band 'D', ar ôl addasu am ostyngiadau ac eithriadau - 51,451 yn 2009/10. Caiff y swm sylfaenol am eiddo band 'D' (£1,068.98 yn 2009/10) ei luosi â'r gyfran a bennwyd ar gyfer y band arbennig i roi'r swm dyledus unigol. Seiliwyd biliau treth y Cyngor ar y lluosyddion canlynol ar gyfer bandiau A i I.

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Nifer yr eiddo ar 31/03/10	4,275	12,338	16,196	9,584	7,585	4,748	2,417	706	284

Dadansoddiad o'r elw clir o Dreth y Cyngor:

2008/09 £'000		2009/10 £'000
53,171	Treth y Cyngor a godwyd	55,310
53,171	**Elw clir o Dreth y Cyngor**	55,310

11. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Caiff NNDR eu trefnu'n genedlaethol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n pennu swm ar gyfer lluosydd y dreth (48.9p yn 2009/10) ac, yn amodol ar effeithiau trefniadau trosiannol, bydd busnesau lleol a thalwyr ardrethi annomestig yn talu cyfraddau sy'n cael eu cyfrifo trwy luosi'r gwerth ardrethol â'r swm hwnnw. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu ardrethi dyledus gan drethdalwyr yn ei ardal, ond mae'n talu'r derbyniadau gronfa NNDR, sy'n cael ei gweinyddu gan y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n ailddosbarthu'r symiau taladwy yn ôl i awdurdodau lleol ar sail swm penodedig y pen o'r boblogaeth. Roedd incwm NNDR, ar ôl rhyddhad a darpariaethau, yn £35,517k yn 2009/10. Cyfanswm y gwerth ardrethol ar 31 Mawrth 2010 oedd £88,898k. Y canlynol yw dadansoddiad o'r elw clir o ardrethi annomestig:-

2008/09 £'000		2009/10 £'000
35,284	Ardrethi annomestig a godwyd	35,517
	Llai:	
(35,057)	swm a dalwyd i Gronfa NNDR	(35,284)
(227)	cost casglu	(233)
0		0
34,528	Derbyniadau o'r gronfa	35,605
34,528	Elw clir o NNDR	35,605

12. Asedau Sefydlog Anniriaethol

2008/09 £'000		2009/10 £'000
157	Swm Agoriadol	168
61	Gwariant yn y flwyddyn	478
(50)	Swm a godwyd ar I&E	(146)
168	Swm wrth Gau	500

Mae'r gwariant yn y flwyddyn yn berthnasol i brynu System Budd-dal Tai Newydd (£169k) a system Rheoli Tai a Gwaith Trwsio (£309k). Mae'r costau'n cael eu codi ar y cyfrif I&E dros 5 mlynedd.

13. Prisio Asedau Sefydlog

Adolygwyd Tir ac Adeiladau'n gynhwysfawr fel yr oedd pethau ar 1 Ebrill 2009 gan Reolwr Gwasanaethau Prisio'r Cyngor, Mr R W White, BSc. FRICS, ar y seiliau isod, yn unol â Datganiadau Prisio Asedau a Nodiadau Cyfarwyddyd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Arweiniodd yr adolygiad at y newidiadau canlynol yng ngwerth yr asedau:

	Cynnydd yng ngwerth asedau £'000	Gostyngiad yng ngwerth asedau £'000	Newid clir £'000
Tai'r Cyngor	111,184	(4,960)	106,224
Asedau Gweithredol Eraill	94,716	(35,697)	59,019
Asedau Anweithredol	960	(1,616)	(656)
	206,860	(42,273)	164,587

Nid yw cerbydau, cyfarpar, peirianwaith ac offer yn rhan o brisiad yr adeiladau, a chânt eu cofnodi ar y fantolen am y gost, clir o ddibrisiad.

Prisiwyd eiddo sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor fel gweithredol, heblaw am isadeiledd ac asedau cymunedol, ar sail gwerth ar y farchnad agored i'r defnyddiwr presennol neu, lle nad oedd modd asesu hyn am nad oedd unrhyw farchnad i'r ased dan sylw, y gost amnewid ddibrisiedig. Prisiwyd isadeiledd ac asedau cymunedol ar eu prisiau hanesyddol.

Prisiwyd eiddo sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor fel anweithredol ar sail prisiad y farchnad agored a, phan fo hynny'n briodol, yn amodol ar denantiaethau presennol.

Cynhaliwyd adolygiad amhariad ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r canlyniad o ostyngiad yn y gwerth clir ar bapur o £2,981k o ran Anheddau'r Cyngor, Asedau Gweithredol Eraill o £5,870k ac Asedau Anweithredol o £357k .

Yn dilyn cwblhau gwaith cyfalaf sylweddol, caffaeliadau tir ac adolygiad o asedau dros ben, gwnaed yr ailbrisiadau o £334k ac amhariadau o £540k sy'n cael eu dangos isod:

	Cynnydd yng ngwerth asedau £'000	Gostyngiad yng ngwerth asedau £'000	Newid clir £'000
Asedau Gweithredol	334	(106)	228
Asedau Anweithredol	0	(434)	(434)
Cyfanswm Asedau	334	(540)	(206)

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CREIDDIOL

14. Symudiad ar Asedau Diriaethol Sefydlog

	Cartrefi'r Cyngor £'000	Tir ac Adeiladau Eraill £'000	Cerbydau, Cyfarpar ac Offer £'000	Asedau Isadeiledd £'000	Asedau Cymunedol £'000	**Cyfanswm Gweithredol £'000**	Eiddo Buddsoddi £'000	Asedau'n Cael eu Hadeiladu £'000	Asedau dros ben i'w gwared £'000	**Cyfanswm Anweithredol £'000**	**Cyfanswm Asedau £'000**
Cost neu brisiad ar 1/04/2009	**353,484**	**278,507**	**7,784**	**54,177**	**23,102**	**717,054**	**1,281**	**1,466**	**11,926**	**14,673**	**731,727**
Ychwanegiadau	11,641	20,795	6,855	4,846	459	**44,596**	0	2,012	0	**2,012**	**46,608**
Gwarediadau	(208)	0	0	0	0	**(208)**	(431)	0	(850)	**(1,281)**	**(1,489)**
Ailddosbarthiadau	0	(1,008)	0	577	119	**(312)**	(271)	(1,803)	2,386	**312**	**0**
Ailbrisiadau	111,184	93,426	0	(125)	1,749	**206,234**	0	93	867	**960**	**207,194**
ar 31/03/2010	**476,101**	**391,720**	**14,639**	**59,475**	**25,429**	**967,364**	**579**	**1,768**	**14,329**	**16,676**	**984,040**
Dibrisiad ac amhariadau ar 1/04/2009	**(19,586)**	**(19,692)**	**(2,804)**	**(1,978)**	**(106)**	**(44,166)**	**0**	**0**	**(447)**	**(447)**	**(44,613)**
Taliad am y flwyddyn	(7,506)	(14,789)	(1,523)	(1,149)	(28)	**(24,995)**	0	0	(1)	**(1)**	**(24,996)**
Gwarediadau	0	0	0	0	0	**0**	0	0	281	**281**	**281**
Ailddosbarthiadau	0	367	0	0	0	**367**	0	0	(367)	**(367)**	**0**
Ailbrisiadau	(7,941)	(39,405)	0	0	(2,268)	**(49,614)**	0	(1,088)	(1,319)	**(2,407)**	**(52,021)**
ar 31/03/2010	**(35,033)**	**(73,519)**	**(4,327)**	**(3,127)**	**(2,402)**	**(118,408)**	**0**	**(1,088)**	**(1,853)**	**(2,941)**	**(121,349)**
Mantolen swm ar 31/3/10	**441,068**	**318,201**	**10,312**	**56,348**	**23,027**	**848,956**	**579**	**680**	**12,476**	**13,735**	**862,691**
Mantolen swm ar 1/04/2009	**333,898**	**258,815**	**4,980**	**52,199**	**22,996**	**672,888**	**1,281**	**1,466**	**11,479**	**14,226**	**687,114**
Natur daliad asedau											
Meddiant	441,068	305,057	5,687	56,348	23,027	**831,187**	579	680	12,476	**13,735**	**844,922**
Prydles gyllidol	0	0	859	0	0	**859**	0	0	0	**0**	**859**
PFI	0	13,144	3,766	0	0	**16,910**	0	0	0	**0**	**16,910**
	441,068	**318,201**	**10,312**	**56,348**	**23,027**	**848,956**	**579**	**680**	**12,476**	**13,735**	**862,691**

15. Asedau Sefydlog Mewn Llaw

Roedd y prif asedau yn nwylo Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 31 Mawrth 2010 fel a ganlyn:

Asedau Gweithredol

Anheddau'r Cyngor	
Tai a Fflatiau	11,538
Tir ac Adeiladau Eraill	
Adeiladau Gweinyddol	6
Depos a Gweithdai	3
Ysgolion / Unedau Meithrin / PRU	73
Canolfannau Preswyl (Oedolion)	4
Canolfannau Preswyl (Plant)	2
Canolfannau Dydd	5
Canolfannau Hamdden, Chwaraeon ac Adloniant a Phyllau Nofio	8
Canolfannau Hamdden Deuol	6
Canolfannau Cymunedol / Ieuenctid a Neuaddau Eraill	52
Meysydd Parcio	37
Ffermydd	15
Modurdai	2267
Marchnadoedd Agored	1
Marchnadoedd dan Do	3
Unedau Diwydiannol:	
Ar Osod i Denantiaid	253
Gwag	96
Asedau Cymunedol	
Mynwentydd a'r Amlosgfa	4
Gerddi Meithrin	1

16. Dibrisiad

Dibrisiwyd holl asedau sefydlog heblaw tir ac eiddo buddsoddi, gan ddefnyddio'r dull llinell syth dros y cyfnodau canlynol:

Adeiladau	15 - 60 mlynedd
Anheddau'r Cyngor	25 mlynedd
Cerbydau, Cyfarpar, Dodrefn ac Offer	5 - 10 mlynedd
Isadeiledd	50 mlynedd

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CREIDDIOL

17. Datganiad Codi Cyfalaf

Cyfanswm 2008/09 a Ailddatganwyd £'000		Asedau Diriaethol £'000	Asedau Anniriaethol £'000	Gwariant Cyllid 2008/09 a Gyllidwyd o Gyfalaf trwy Statud £'000	Benthyciadau i drydydd bartïon £'000	Cyfanswm £'000
30,460	Gwariant yn y Flwyddyn	46,608	478	4,821	0	51,907
0	Llai: Croniad cyfalaf	(217)	0	0	0	(217)
30,460		46,391	478	4,821	0	51,690
	Cyllidwyd trwy:-					
6,217	Benthyca – cymorthedig	5,219	0	1,024	0	6,243
12	– heb gymorth	2,316	0	0	0	2,316
184	Prydles Gyllidol	71	0	0	0	71
0	Menter Cyllid Preifat	16,910	0	0	0	16,910
447	Derbyniadau Cyfalaf	1,574	0	5	0	1,579
18,427	Grantiau a Chyfraniadau	16,618	0	3,782	0	20,400
5,173	Gwariant Cyfalaf Codi ar Gyllid	3,683	478	10	0	4,171
30,460		46,391	478	4,821	0	51,690

18. Gofyniad Codi Cyfalaf

Mae Cod Ymarfer Darbodus CIPFA yn gofyn bod y Cyngor yn mabwysiadu dangosyddion sy'n dangos bod cynlluniau cyfalaf y Cyngor yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Un o'r dangosyddion hyn yw'r Gofyniad Codi Cyfalaf. Mae'r dangosydd hwn yn adlewyrchu'r angen sylfaenol i fenthyca at ddiben cyfalafol. Pan nad oes adnoddau ar unwaith ar gyfer gwariant cyfalaf, bydd hyn yn peri cynnydd clir yn y gofyniad codi cyfalaf. Dyma sut y bydd pa un ai yw benthyca allanol yn digwydd mewn gwirionedd, neu beidio. Y gofyniad codi cyfalaf fel yr oedd ar 31 Mawrth yw:

2008/09 £'000		2009/10 £'000
687,282	Asedau Sefydlog	863,191
0	Llai: Croniad cyfalaf	(217)
204	Dyledwyr hirdymor - benthyciad i drydydd bartïon	194
(22,619)	Cronfa Ailbrisio	(226,045)
(454,410)	Cyfrif Addasu Cyfalaf	(398,248)
(75,937)	Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth	(85,937)
134,520	Gofyniad Codi Cyfalaf ar 31 Mawrth	152,938

19. Ymrwymiadau Dan Gontractau Cyfalaf

Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2010 roedd y Cyngor mewn ymrwymiad cytundebol i wneud gwaith cyfalaf ar y cynlluniau canlynol:

	£'000
Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd Cyfnod 2	7,765
Canolfan Hamdden Gwyn Evans	637
Amgueddfa Wrecsam	758
Eiddo HRA	320
Gwaith mewn Ardaloedd Adnewyddu Tai	1,767
	11,247

20. Dyledwyr Hirdymor

31/03/2009 £'000		31/03/2010 £'000
127	Morgeisi	99
126	Benthyciad i Gorff Masnachol	126
78	Benthyciad i Gorff Gwirfoddol	68
331		293

Roedd y benthyciad i gorff masnachol ar gyfer talu'n rhannol am ddatblygu gwesty ym Mharc Technoleg Wrecsam, ac fe'i gwnaed ym mis Rhagfyr 2005, ar log sefydlog. Mae'n ad-daladwy dros 20 mlynedd, gyda'r ad-daliad cyntaf ym mis Rhagfyr 2006. Llog yn unig yw'r ad-daliadau yn ystod y pum mlynedd gyntaf, gyda'r prifswm, ynghyd â gweddill y llog, yn cael ei ad-dalu dros y pymtheng mlynedd ddilynol.

Mae dau fenthyciad i gyrff gwirfoddol:

a) £25k i dalu'n rhannol am gost caffael Portacabin gan Glwb Gofal Plant Allan o'r Ysgol yn Ysgol Iau Gwaunyterfyn. Gwnaed y benthyciad ym mis Ionawr 2008 ar log sefydlog, i'w ad-dalu ddwywaith y flwyddyn gyda'r ad-daliad cyntaf yn ddyledus ym mis Gorffennaf 2008.

b) £60k i gaffael a gosod uned symudol at ddefnydd Clwb Allan o'r Ysgol Lôn Barcas. Gwnaed y benthyciad ym mis Hydref 2008 ar log sefydlog, i'w ad-dalu ddwywaith y flwyddyn gyda'r ad-daliad cyntaf yn ddyledus ym mis Tachwedd 2008.

21. Prydlesi Gweithredu

Bydd y Cyngor yn defnyddio dodrefn ac offer a cherbydau dan delerau prydles weithredu. Y swm a dalwyd ac a godwyd ar y Cyfrif I&E dan y trefniadau hyn yn 2009/10 oedd £987k (2008/09 £1,222k). Gwerth cyfalaf asedau a gafwyd yn ystod y flwyddyn dan brydlesi gweithredu oedd £304k. Roedd y Cyngor yn ymrwymedig ar 31 Mawrth 2010 i wneud taliadau o £725k dan brydlesi gweithredu yn 2010/11, gan gynnwys y canlynol:

	£'000
Prydlesi'n dod i ben yn 2010/11	0
Prydlesi'n dod i ben rhwng 2011/12 a 2014/15	700
Prydlesi'n dod i ben ar ôl 2014/15	25
	725

22. Prydlesi Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi caffael amrywiol gerbydau dan brydlesi cyllidol yn ystod 2009/10. Y rhenti taladwy dan y trefniadau hyn yn 2009/10 oedd £327k (2008/09 £295k), a godwyd ar gostau cyllid I&E fel £26k costau cyllid (debydwyd fel llog taladwy) a £301k perthnasol i ddibrisiad rhwymedigaethau i'r prydleswr.

Caiff y canlynol eu dal dan brydlesi cyllidol gan y Cyngor, a chânt eu cyfrifo fel rhan o Asedau Sefydlog Diriaethol:

	Cerbydau, Offer Dodrefn a Chyfarpar £'000
Gwerth ar 1 Ebrill 2009	1,059
Ychwanegiadau	71
Dibrisiad	(271)
Gwarediadau	0
Gwerth ar 31 Mawrth 2010	859

Mae ymrwymiadau heb eu talu dan y prydlesi cyllidol hyn (ac eithrio costau cyllid) ar 31 Mawrth 2010, a gyfrifwyd am fel rhan o ddyledion gohiriedig (gwelwch nodyn 24), fel a ganlyn:

	£'000
Dyledion taladwy yn 2010/11	242
Dyledion taladwy rhwng 2011/12 a 2014/15	315
Dyledion taladwy ar ôl 2014/15	0
Cyfanswm dyledion ar 31 Mawrth 2010	557

Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr asedau, a'r ddyled i'w thalu, i'w briodoli i bolisi'r Cyngor o beidio â dechrau dibrisio asedau ym mlwyddyn eu caffael.

23. Private Finance Initiative (PFI)

Aeth y Cyngor i gynllun Menter Cyllid Preifat gwaredu gwastraff pum mlynedd ar hugain gyda WRG Ltd ar 1 Ebrill 2009. Roedd yr holl gyfleusterau'n weithredol erbyn mis Medi 2009. Caiff gwerth teg yr asedau sy'n cael eu dal dan y cytundeb eu cynnwys yn yr Asedau Diriaethol Sefydlog ar sail prisiadau ym mhatrwm ariannol y gweithredwyr fel a ganlyn:

	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau, Offer Dodrefn a Chyfarpar £'000	Cyfanswm £'000
Gwerth ar 1 Ebrill 2009	0	0	0
Ychwanegiadau	13,144	3,766	16,910
Dibrisiad	0	0	0
Gwerth ar 31 Mawrth 2010	13,144	3,766	16,910

23. Menter Cyllid Preifat (Parhad)

Mae manylion y taliadau i'w gwneud yn ystod oes y cynllun fel a ganlyn:

	Gwerth Teg y Tâl am y Gwasanaeth £'000	Llog a Rhenti Digwyddiado £'000	Ad-dalu'r Ddyled £'000	Cyfanswm Taliad Unedol £'000
cyn pen blwyddyn	7,382	2,614	239	10,235
o fewn 2 i 5 mlynedd	33,648	10,254	670	44,572
o fewn 6 i 10 mlynedd	51,709	12,339	1,282	65,330
o fewn 11 i 15 mlynedd	59,983	12,418	2,195	74,596
o fewn 16 i 21 mlynedd	66,653	14,377	5,972	87,002
o fewn 22 i 25 mlynedd	58,683	5,292	5,311	69,286
	278,058	57,294	15,669	351,021

Mae'r tâl am wasanaeth yn cynnwys costau adnewyddu cylchred oes fel sydd yng nghynllun ariannol y gweithredwr. Amcangyfrifwyd y taliadau am y flwyddyn ariannol a ddaw trwy ddefnyddio cyfartaledd pwysol o'r amrywiol fynegrifau a bennwyd yn y contract. Seiliwyd y cyfraddau a ddefnyddiwyd ar y codiadau ar 1 Ionawr 2010 am RPI 3.71%, RPIx 5.07%, Mynegrif Llafur 2.95% a Mynegrif Derv 15.02%. Ar gyfer blynyddoedd dilynol tybiwyd chwyddiant o 2.5% ar gyfer holl fynegrifau fel y tybiwyd yng nghynllun ariannol y gweithredwr.

24. Rhwymedigaeth Ohiriedig

	Gweddill ar 01/04/2009 £'000	Chwanegiada yn y flwyddyn £'000	Ad-daliad yn y flwyddyn £'000	Gweddill ar 31/03/2010 £'000
Prydlesi Cyllidol	787	71	(301)	557
PFI	0	16,910	(1,241)	15,669
	787	16,981	(1,542)	16,226

Yn ystod 2009/10 cymrwyd prydles gyllidol newydd ar atodyn i raeanwr a brynwyd yn 2006/07(£71k)

25. Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghymwysedig

	Gweddill ar 01/04/2009 £'000	Derbyniwyd £'000	Cymhwyswyd i gyllid cyfalaf £'000	Gweddill ar 31/03/2010 £'000
Grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr	0	7,600	(7,600)	0
Grantiau a Chyfraniadau Eraill	2,757	13,596	(12,800)	3,553
	2,757	21,196	(20,400)	3,553

26. Dyledwyr

Ailddatganwyd 31/03/2009 £'000		31/03/2010 £'000
	Dyledwyr:	
4,266	Treth y Cyngor	4,592
967	Ôl-ddyledion rhenti tai	1,044
6,195	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth - Cyllid	8,796
2,240	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth - Cyfalaf	732
4,624	Dyledwyr amrywiol / masnachol	5,546
5,713	Arall	6,504
24,005		27,214
	Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion:	
2,006	Treth y Cyngor	2,366
689	Rhenti Tai	723
420	Dyledwyr amrywiol / masnachol	444
3,115		3,533

27. Darpariaethau

	Gweddill ar 01/04/2009 £'000	Cyfraniad £'000	Taliadau £'000	Gweddill ar 31/03/2010 £'000
Darpariaeth yswiriant	340	436	(431)	345
Cyfalafu pensiynau	1	0	(1)	0
Tribiwnlys Gogledd Cymru	38	0	(38)	0
Ôl-gyflogau Cyflogau Anghyfartal	5,600	0	0	5,600
Arall	6	0	(6)	0
	5,985	436	(476)	5,945

Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer gwariant disgwyliedig fel a ganlyn:

Darpariaeth yswiriant – mae hon ar gyfer taliadau ychwanegol disgwyliedig ar hawliadau.

Darpariaeth Ôl-gyflogau Cyflogau Anghyfartal – mae hon ar gyfer unrhyw gyflogau dyledus all godi, yn dilyn gweithredu'r Cytundeb Statws Unigol. Caiff y Cyfrif Ôl-gyflogau Cyflogau Anghyfartal (gwelwch nodyn 36) i ddal swm hafal i'r ôl-gyflog a ohiriwyd rhag cael ei godi ar Gronfa'r Cyngor dan reoliad 24a o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Codi Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010.

28. Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth

2008/09 £'000		2009/10 £'000
64,244	Swm Agoriadol	75,937
13,375	Wedi'i gymhwyso i dalu am fuddsoddiad cyfalaf	12,345
(1,682)	Wedi ei ryddhau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant	(2,345)
75,937	Swm wrth Gau	85,937

29. Benthyciadau

Ffurfiwyd y benthyciadau a ddadlennwyd ar y Fantolen o'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol:

	31/03/2009 (Ailddatganwyd)					31/03/2010				
	Prifswm £'000	Llog Cronedig £'000	Premiwm £'000	Gostyngiad £'000	Cost wedi'i hamorteiddio £'000	Prifswm £'000	Llog Cronedig £'000	Premiwm £'000	Gostyngiad £'000	Cost wedi'i hamorteiddio £'000
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhc	109,053	0	0	0	109,053	106,563	0	0	0	106,563
Y Farchnad	23,800	638	(1,889)	26	22,575	23,800	674	(1,879)	27	22,622
Cyfanswm Benthyca Hirdymor	132,853	638	(1,889)	26	131,628	130,363	674	(1,879)	27	129,185
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhc	740	1,012	0	0	1,752	2,488	1,011	0	0	3,499
Y Farchnad	0	133	0	0	133	0	135	0	0	135
Dros Dro	0	0	0	0	0	2,000	0	0	0	2,000
Bondiau	170	9	0	0	179	189	8	0	0	197
Cyfanswm Benthyca Byrdymor	910	1,154	0	0	2,064	4,677	1,154	0	0	5,831

Caiff ymrwymiadau ariannol eu cario ar y Fantolen am gost wedi'i hamorteiddio. Mae PWLB wedi rhoi symiau gwerth teg i'r Cyngor mewn cysylltiad â'r benthyciadau heb eu had-dalu ac mae wedi asesu'r gwerthoedd teg trwy gyfrifo'r symiau y byddai'r Cyngor yn gorfod eu talu i ddileu'r benthyciadau fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth. Mae gan y Cyngor bum benthyciad marchnad o bedwar banc. Gofynnwyd i'r banciau roi manylion y gwerthoedd teg ar bob benthyciad. Ymatebodd dau o'r banciau gyda manylion seiliedig ar gostau brocera'r benthyciadau. Fodd bynnag, ar weddill benthyciadau'r farchnad, mae'r Cyngor wedi asesu gwerth teg gan ddefnyddio cyfraddau ad-dalu cynamserol PWLB ar 31 Mawrth. O ran benthyca byrdymor tybiwyd mai'r swm cario yw'r gwerth teg bras.

Mae'r gwerthoedd teg fel a ganlyn:

	31/03/2009		31/03/2010	
	Prifswm £'000	Gwerth teg £'000	Prifswm £'000	Gwerth teg £'000
PWLB	109,793	142,097	109,051	135,159
Y Farchnad	23,800	27,865	23,800	26,750
Ymrwymiadau ariannol	133,593	169,962	132,851	161,909

Mae'r gwerth teg yn fwy na'r swm cario oherwydd bod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd benodol, lle mae'r llog taladwy'n fwy na'r cyfraddau sydd ar gael ar fenthyciadau tebyg, ar ddyddiad y fantolen. Os caiff gwerth teg y benthyciadau ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau benthyca newydd PWLB yna gwerthoedd benthyciadau PWLB a'r farchnad fyddai £127,681k a £25,818k yn ôl eu trefn. Mae'r ymrwymiad i dalu llog uwchlaw cyfraddau cyfredol y farchnad yn lleihau'r swm y byddai'r Cyngor yn gorfod eu talu, pe bai'r rhoddwr benthyg yn gofyn am, neu'n cytuno i, ad-daliad cynnar o'r benthyciadau.

30. Buddsoddiadau

Ffurfiwyd y buddsoddiadau a ddadlennwyd ar y Fantolen o'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol:

	31/03/2009			31/03/2010		
	Prifswm £'000	Llog Cronedig £'000	Cost wedi'i Hamorteidd £'000	Prifswm £'000	Llog Cronedig £'000	Cost wedi'i Hamorteiddio £'000
Buddsoddiadau Hirdymor	0	0	0	0	0	0
Buddsoddiadau Byrdymor	38,369	1,222	39,591	34,000	153	34,153
Cyfanswm Buddsoddiadau	38,369	1,222	39,591	34,000	153	34,153

Caiff asedau ariannol fel buddsoddiadau eu cario ar y Fantolen am gost wedi'i hamorteiddio. Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cynnwys adneuon tymor gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu. Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2010 nid oedd unrhyw fuddsoddiadau hirdymor. Lle bo offeryn yn aeddfedu yn y deuddeg mis nesaf, caiff y swm cario ei gymryd fel gwerth teg bras.

Caiff y gwerthoedd teg eu cyfrifo fel a ganlyn:

	01/04/2009		31/03/2010	
	Swm Prifswm £'000	Gwerth teg £'000	Swm Prifswm £'000	Gwerth teg £'000
Buddsoddiadau Hirdymor	0	0	0	0
Buddsoddiadau Byrdymor	38,369	38,369	34,000	34,000

31. Offerynnau Ariannol

Caiff yr enillion a cholledion yn y Cyfrif Incwm a Gwariant mewn cysylltiad ag offerynnau ariannol eu ffurfio fel a ganlyn:

	Rhwymedigaethau a fesurwyd am gost wedi'i hamorteiddio £'000	Buddsoddiadau £'000	Dyledwyr Masnachol a Hirdymor £'000	Cyfanswm £'000
Llog	9,288	0	0	9,288
Colledion ar ddatgydnabod	0	0	0	0
Colledion amhariad	0	0	0	0
Llog taladwy a thaliadau tebyg	9,288	0	0	9,288
Incwm llogau	0	(824)	(17)	(841)
Enillion ar ddatgydnabod	0	0	0	0
Incwm o logau a buddsoddiadau	0	(824)	(17)	(841)

31. Offerynnau ariannol (parhad)

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei wneud yn agored i amrywiaeth o beryglon ariannol. Y peryglon allweddol yw:

Risg credyd – y posibilrwydd y gallai eraill beidio â thalu symiau dyledus i'r Cyngor;
Risg hylifedd – y posibilrwydd na fallai gan Cyngor yr arian ar gael i dalu ei ddyledion;
Risg y farchnad – y posibilrwydd y gallai'r Cyngor golli arian o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiad cyfraddau llog.

Mae rhaglen rheoli risg y Cyngor at ei gilydd yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy marchnadoedd ariannol ac yn ceisio lleihau effeithiau andwyol all fod ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu am wasanaethau. Tîm Rheoli'r Drysorfa sy'n rheoli risg ar y cyd ag ymgynghorwyr penodedig Rheoli'r Drysorfa, dan bolisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Strategaeth Reoli'r Drysorfa a Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r strategaeth yn rhoi egwyddorion ysgrifenedig rheoli risg at ei gilydd, yn ogystal â pholisïau ysgrifenedig ar feysydd penodol, fel risg cyfraddau llog, risg credyd, a buddsoddi arian dros ben.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA Rheoli'r Drysorfa yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: ac wedi pennu dangosyddion rheoli'r drysorfa i gadw trefn ar risgiau allweddol offerynnau ariannol yn unol â Chod Materion Ariannol CIPFA.

Risg credyd

Daw risg credyd o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â bod yn agored i gredyd cwsmeriaid y Cyngor. Nid yw adneuon yn cael eu gwneud mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu cyfrif yn annibynnol gyda Cyfradd isaf o F1, A-, C Fitch, P-1, A3, C Moody ac A-1, A-,C Standard & Poors. Mae gan y Cyngor polisi o beidio â rhoi benthyg mwy na £10m i un sefydliad.

Caiff gwrthbartïon eu hasesu, gan ystyried eu sefyllfa ariannol, profiadau'r gorffennol a ffactorau eraill, gyda therfynau credyd unigol yn cael eu pennu'n unol â graddfeydd mewnol, yn ôl paramedrau a bennwyd gan y Cyngor.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi buddsoddiadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2010:

	Aeddfedu'r Buddsoddiad				
	1-3 mis £'000	3-6 mis £'000	6-12 mis £'000	Dros 12 mis £'000	Cyfanswm £'000
Banciau					
D U CGS AA- F1+ B 1	0	4,000	8,000	0	12,000
CGS AA- F1+ C 1	0	5,000	5,000	0	10,000
CGS AA- F1+ D/E 1	10,000				10,000
	10,000	**9,000**	**13,000**	**0**	**32,000**
Cymdeithasau Adeiladu					
D U CGS AA- F1+ B 1	**0**	**0**	**2,000**	**0**	**2,000**
Cyfanswm Buddsoddiadau	**10,000**	**9,000**	**15,000**	**0**	**34,000**

31. Offerynnau Ariannol (parhad)

Pennodd y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2008/09 a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror 2009 y meini prawf ar benderfynu'r gwrthbartïon y mae'n eu hystyried yn addas at ddibenion buddsoddi. Oherwydd newidiadau dramatig yng nghyflwr y farchnad ers mis Tachwedd 2008 ni fu'r Cyngor ond yn buddsoddi mewn sefydliadau sy'n rhan o Gynllun Gwarantu Credyd 2008 Llywodraeth y DU. Ni thorrwyd meini prawf gwrthbartïon y Cyngor yn ystod y cyfnod hysbysu ac nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw golledion oherwydd diffyg perfformiad unrhyw un o'i wrthbartïon mewn cysylltiad ag adneuon. Nid oes gan y Cyngor brofiad hanesyddol o ddiffyg mewn cysylltiad â'i wrthbartïon buddsoddi.

Risg hylifedd

Oherwydd bod benthyciadau ar gael yn rhwydd i'r Cyngor o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, nid oes unrhyw berygl sylweddol y bydd yn methu codi cyllid i dalu ei ddyledion dan offerynnau ariannol. Yn hytrach, y perygl yw y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol. Strategaeth y Cyngor yw sicrhau nad yw benthyciadau'n aeddfedu ar adeg anghyfleus a chaiff hyn ei wneud trwy gyfuniad o gynllunio benthyciadau newydd yn ofalus a (phan fo'n ddarbodus gwneud hynny) ad-dalu'n gynnar.

Y canlynol yw dadansoddiad o aeddfedrwydd benthyciadau hirdymor y Cyngor:

	£'000
Llai na blwyddyn	2,488
Rhwng un a dwy flynedd	4,000
Rhwng dwy a saith mlynedd	2,958
Rhwng saith a phymtheng mlynedd	10,967
Mwy na phymtheng mlynedd	112,438
	132,851

Mae holl gredydwyr masnachol i gael eu talu mewn llai na blwyddyn.

Risg y farchnad

Risg cyfraddau llog – Mae'r Cyngor yn agored i symudiad cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae effaith symudiadau cyfraddau llog ar y Cyngor yn gymhleth, yn dibynnu ar sut mae cyfraddau llog newidiol a sefydlog yn symud dros wahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, effeithiau cynnydd mewn cyfraddau llog newidiol a sefydlog fyddai'r canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau newidiol - bydd traul y llog ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn cynyddu
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - bydd gwerth teg yr atebolrwydd benthyca'n lleihau;
- buddsoddiadau ar gyfraddau newidiol - bydd incwm y llog i'w gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn cynyddu;
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - bydd gwerth teg yr asedau'n lleihau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario am werth teg ar y Fantolen, fel na fyddai enillion a cholledion enwol ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Cyfrif Incwm a Gwariant neu STRGL. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog taladwy a derbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd newidiol yn cael eu cario i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, ac yn effeithio ar Weddillion Cronfa'r Cyngor / HRA.

Bydd symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog yn cael eu hadlewyrchu yn y STRGL, oni bai y dynodwyd y buddsoddiadau fel gwerth teg trwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau at reoli risg cyfraddau llog. Mae Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Drysorfa'n tynnu ynghyd dangosyddion darbodus y Cyngor a gweithrediadau disgwyliedig y drysorfa, gan gynnwys disgwyliad o symudiad cyfraddau llog. O'r Strategaeth hon, caiff dangosydd darbodus ei bennu sy'n

31. Offerynnau Ariannol (parhad)

rhoi terfynau uchaf ac isaf ar amlygrwydd i gyfraddau llog sefydlog a newidiol. Bydd tîm y drysorfa'n cadw golwg ar ragolygon cyfraddau llog y farchnad ac yn addasu'r amlygrwydd yn briodol o fewn y flwyddyn. Er enghraifft yn ystod cyfnodau pan fydd cyfraddau llog yn disgyn, a phan fo amgylchiadau economaidd yn ffafrio hynny, gall buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu cymryd am gyfnodau hwy, i sicrhau gwell elw hirdymor.

Pe bai cyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch, gyda holl newidynnau eraill yn cael eu dal yn gyson, yr effaith ariannol fyddai:

	£'000
Cynnydd mewn llog taladwy ar fenthyciadau cyfradd newidiol	0
Cynnydd mewn llog derbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	(30)
Cynnydd yng Ngrant y Llywodraeth derbyniadwy am gostau cyllido	0
Yr effaith ar y Cyfrif Incwm a Gwariant	(30)
Cyfran o'r effaith drwyddi draw i'w debydu / chredydu i'r HRA	0
Gostyngiad yng ngwerth teg asedau buddsoddi cyfradd log sefydlog	0
Gostyngiad yng ngwerth teg ymrwymiadau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Cyfrif I&E neu STRGL)	22,664

Byddai effaith gostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog yn fras fel yr uchod, ond gyda'r symudiadau o chwith.

Risg prisiau

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi'n gyffredinol mewn cyfranddaliadau ecwiti.

Risg y Farchnad Cyfnewid Tramor

Nid oes gan y Cyngor asedau na dyledion ariannol mewn arian tramor ac, felly, nid yw'n agored i golled yn deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

32. Trafodion Perthnasol i Fudd-daliadau Ymddeol

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a chyflogeion eraill, mae'r Cyngor yn cynnig budd-daliadau ymddeol. Er na fydd y budd-daliadau hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bydd y cyflogeion yn ymddeol, mae'r Cyngor yn ymrwymo i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu pan fydd Cyflogeion yn ennill eu hawl yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cyfranogi yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), Cronfa Bensiynau Clwyd yn benodol, sy'n cael ei gweinyddu ar ran y Cyngor gan Gyngor Sir y Fflint. Mae hwn yn gynllun wedi'i gyllido, sy'n golygu bod y Cyngor a'r cyflogeion yn gwneud cyfraniadau i'r gronfa, a gyfrifwyd fel ag i fantoli'r ymrwymiadau pensiynau Gyda'r asedau buddsoddi.

Mae cost budd-daliadau ymddeol i'w gweld yng Nghost Glir Gwasanaethau pan fydd y cyflogeion yn eu hennill, yn hytrach na phan gaiff y budd-daliadau eu talu maes o law fel pensiynau. Fodd bynnag, seiliwyd yr hyn sydd i'w godi ar dreth y cyngor ar gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn. Felly, caiff gwir gost budd-daliadau ymddeol eu gwyrdroi allan yng Ngweddill Datganiad Symudiad yng Nghronfa'r Cyngor. Gwnaed y trafodion canlynol yng Ngweddill y Cyfrif I&E a Datganiad Symudiad yng Nghronfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

		2009/10		
2008/09 £'000		Cronfa'r Cyngor £'000	HRA £'000	Cyfanswm £'000
	Cyfrif Incwm a Gwariant			
	Cost Glir Gwasanaethau:			
12,277	Costau gwasanaeth presennol	7,095	824	7,919
9	Costau gwasanaeth y gorffennol	135	0	135
17	Colled cwtogi	64	145	209
	Gwariant Gweithredu Clir:			
27,040	Cost llogau	23,919	2,675	26,594
(19,115)	Elw disgwyliedig ar asedau yn y cynllun	(13,538)	(1,572)	(15,110)
20,228	*Cost glir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant*	17,675	2,072	19,747
	Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor			
(20,228)	Gwrthdroad taliadau clir a wnaed ar gyfer budd-daliadau ymddeol yn unol â FRS17	(17,675)	(2,072)	(19,747)
18,545	Cyfraniadau'r cyflogwr taladwy i gynllun Cronfa Bensiynau Clwyd	16,877	1,733	18,610

Yn ogystal â'r enillion a cholledion cydnabyddedig sydd yn y cyfrif I&E, cynhwyswyd colledion actiwaraidd o £61,539k (cynnydd o £8,868k yn 2008/09) yn y Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig. Swm cronnus y golled actiwaraidd a gydnabuwyd yn y Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig yw £27.1m.

33. Asedau a Dyledion mewn cysylltiad â budd-daliadau ymddeol

Cysoniad o werth presennol ymrwymiadau'r cynllun:

	2008/09 £'000	2009/10 £'000
1 Ebrill	(442,910)	(377,047)
Cost Gwasanaeth Presennol	(12,277)	(7,919)
Cost llogau	(27,040)	(26,594)
Cyfraniadau cyflogeion	(4,424)	(4,506)
(Colled) / ennill actiwaraidd	94,483	(120,927)
Budd-daliadau a dalwyd	15,147	16,867
Costau gwasanaethu'r gorffennol	(9)	(135)
Cwtogiadau	(17)	(209)
31 Mawrth	(377,047)	(520,470)

Cysoniad o werth teg buddiannau'r cynllun:

	2008/09 £'000	2009/10 £'000
1 Ebrill	279,673	220,994
Cyfradd adennill ddisgwyliedig	19,115	15,110
(Colled) / ennill actiwaraidd	(85,616)	59,388
Cyfraniadau'r cyflogwr	18,545	18,610
Cyfraniadau cyflogeion	4,424	4,506
Budd-daliadau a dalwyd	(15,147)	(16,867)
31 Mawrth	220,994	301,741

Caiff yr elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun eu penderfynu trwy ystyried yr elw disgwyliedig sydd ar gael ar yr asedau sydd wrth wraidd y polisi buddsoddi cyfredol. Seiliwyd elw disgwyliedig o fuddsoddiadau llog sefydlog ar elw adbrynu crynswth ar ddyddiad y Fantolen. Mae elw disgwyliedig ar fuddsoddiadau ecwiti'n adlewyrchu gwir gyfraddau adennill hirdymor a welwyd yn y marchnadoedd priodol.

Y gwir elw o asedau'r cynllun yn y flwyddyn oedd cynnydd o £74,498k (2008/09: £66,501k o golled).

Hanes y Cynllun

	2005/06 £'000	2006/07 £'000	2007/08 £'000	2008/09 £'000	2009/10 £'000
Gwerth presennol dyledion:	(414,159)	(417,196)	(442,910)	(377,047)	(520,470)
Gwerth teg asedau	261,251	282,697	279,673	220,994	301,741
Gwarged / (diffyg) yn y cynllun	(152,908)	(134,499)	(163,237)	(156,053)	(218,729)

Mae'r dyledion yn dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y pen draw i dalu budd-daliadau ymddeol. Mae cyfanswm yr atebolrwydd o £219m yn cael effaith sylweddol ar werth clir y Cyngor fel y cofnodwyd ar y Fantolen, gan beri gweddill o £433.5m at ei gilydd. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn aros yn iach. Bydd y diffyg yn y cynllun yn cael ei ateb gan gyfraniadau uwch dros weddill bywyd gwaith cyflogeion, fel yr aseswyd gan actiwari'r cynllun. Cyfanswm y cyfraniadau y mae disgwyl i'r Cyngor wneud i Gronfa Bensiynau Clwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 yw £17.2m.

33. Asedau a Dyledion mewn cysylltiad â budd-daliadau ymddeol (parhad)

Sail Amcangyfrif Asedau a Dyledion

Aseswyd dyledion ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy yn y blynyddoedd a ddaw, sy'n dibynnu ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyflogau ac ati. Aseswyd rhwymedigaethau Cronfa Bensiynau Clwyd gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni actiwarïaid annibynnol, gydag amcangyfrifon y Gronfa'n seiliedig ar y prisiad diweddaraf o'r cynllun, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2007.

Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	2008/09	2009/10
Cyfradd adennill hirdymor disgwyliedig ar asedau yn y cynllun:		
Buddsoddiadau ecwiti	7.5%	7.5%
Bondiau	6.0%	5.2%
Arall	7.2%	7.2%
Tybiaethau marwoldeb:		
Hirhoedledd pensiynwyr presennol yn 65:		
Dynion	21.20	21.20
Merched	24.00	24.00
Hirhoedledd pensiynwyr y dyfodol yn 65:		
Dynion	22.20	22.20
Merched	25.00	25.00
Cyfradd chwyddiant	3.30%	3.30%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	4.55%	4.55%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	3.30%	3.30%
Cyfradd ar gyfer lleihau ymrwymiadau'r cynllun	7.10%	5.60%
Manteisio ar ddewis i drosi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ymddeol	50%	50%

Mae asedau'r gronfa bensiwn yn cynnwys buddsoddiadau heb eu dyfynnu'n cael eu dal ar eu gwerth teg. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid cysylltiedig gyda phrisiad buddsoddiadau o'r fath, yn codi o ddiffyg marchnad hylif, fe all gwerth teg y buddsoddiadau hyn fod yn wahanol i'w gwerthoedd sylweddoladwy.

Hanes profiad enillion a cholledion

	2005/06 %	2006/07 yr ailddatganwyd %	2007/08 yr ailddatganwyd %	2008/09 %	2009/10 %
Gwahaniaethau rhwng yr elw disgwyliedig a gwir elw ar asedau	15.00	0.10	(9.70)	(38.70)	19.70
Profiad enillion a cholledion rhwymedigaethau	2.10	0.00	(3.30)	0.00	0.00

34. Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig

Mae athrawon yng nghyflogaeth y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiynau Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan Capita Teachers' Pension. Mae'n rhoi budd-daliadau diffiniedig i athrawon ar wrth iddynt ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y costau trwy wneud cyfraniadau seiliedig ar ganran cyflogau pensiynadwy'r aelodau.

Yn 2009/10, talodd y Cyngor £5.4m i Capita Teachers' Pensions o ran budd-daliadau ymddeol athrawon, yn cynrychioli 14.1% o gyflog pensiynadwy. Y ffigurau ar gyfer 2008/09 oedd £5.2m ac 14.1%. Yn ogystal, gwnaed taliadau o £0.23m o ran costau blynyddoedd ychwanegol, dewis cronedig a straen ar y gronfa (£0.53m in 2008/09). Nid oedd unrhyw gyfraniadau ar ôl i'w talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae Cynllun Pensiynau Athrawon yn gynllun buddiant diffiniedig. Er bod y cynllun heb gronfa, bydd Pensiynau Athrawon yn defnyddio cronfa dybiannol fel sail i gyfrifo cyfradd cyfraniad y cyflogwr i'w thalu gan y Cyngor. Fodd bynnag, nid oes modd i'r Cyngor nodi cyfran o'r rhwymedigaethau sylfaenol yn y cynllun sydd i'w briodoli i'w gyflogeion ei hun at ddiben y Datganiad Cyfrifon hwn. Felly, caiff ei gyfrif fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fanteision ychwanegol i'w dyfarnu wrth ymddeol yn gynnar oddi allan i delerau cynllun yr athrawon. Caiff y budd-daliadau hyn eu cronni'n llawn yn y rhwymedigaeth bensiynau.

35. Rhwymedigaethau Amodol

a) Yn 1997, llofnododd cyflogeion llywodraeth leol a'r undebau llafur perthnasol y "Cytundeb Statws Unigol". Roedd y cytundeb yn ymrwymo awdurdodau i wneud adolygiadau cyflog cyfartal a sefydlu strwythurau cyflog anwahaniaethol, yn rhoi sylw i'r ffaith y cyflogwyd cyflogeion llywodraeth leol ar delerau ac amodau gwahanol. Sefydlwyd darpariaeth gochelgar ar gyfer effaith debygol y cytundeb hwn.

b) Mae'r Cyngor wedi derbyn hawliad am iawndal (ar hyn o bryd yn cael ei brisio gan yr hawliwr fel £4,810k yn cynrychioli lleihad yng ngwerth mwynol a thirlenwi) yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995, oddi wrth weithredwyr Chwarel yr Hafod. Mae'r cais yn codi o benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar 4 Medi 2006 i roi amodau diwygiedig ar y caniatâd cynllunio i dynnu mwynau ar y safle yn cael eu galw'n Adolygiad o Hen Ganiatâd Cynllunio Mwynau (ROMP) yn unol â'i ddyletswydd statudol yn dilyn dynodi rhan o'r safle'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Effaith y ROMP yw cyfyngu ar hawliau gweithio yn yr ACA. Mae'r hawliwr yn gorfod profi rhinweddau'r cais a'r swm ac mae'r Cyngor wedi cyflogi cynghorwyr cyfreithiol arbenigol a phriswyr mwynau arbenigol i gynghori ar y cais. Mae'r mater yn destun achos yn y Tribiwnlys Tiroedd a chyfnewidiwyd tystiolaeth erbyn hyn. Mae'r mater yn debygol o gael ei bennu i'w glywed yn haf 2010.

36. Digwyddiad wedi'r Fantolen

Yn ei Ddatganiad Cyllideb ar 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd y Canghellor y byddai'r Llywodraeth yn dechrau cynyddu pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn unol â'r mynegrif prisiau defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r mynegrif prisiau adwerthu (RPI), sydd wedi bod yr arfer yn y gorffennol. O ganlyniad, mae disgwyl i gynnydd pensiynau dan Gronfa Bensiynau Clwyd / Cynllun Pensiynau Athrawon yn y dyfodol fod yn ychydig yn is, ar gyfartaledd, nag a fyddai'r achos heb y newid hwn. Yr amcangyfrif yw y bydd y newid hwn yn lleihau ymrwymiadau budd-dal FRS17/IAS19 rhwng 5% ac 8%. Bydd yr union effaith ariannol yn cael ei ystyried yn ffigurau FRS17/IAS19 am y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2011.

Effaith ariannol y newid hwn fyddai gostyngiad yn ymrwymiadau pensiwn yn rhedeg rhwng £26,024k a £41,638k. O fewn y Pensiynau Wrth Gefn, byddai'r diffyg yn lleihau rhwng £10,936k a £17,498k.

37. Symudiadau yng Nghronfeydd Cyllid

	Nodyn	Gweddill a Ailddatganwyd 31/03/2008 £'000	Symudiad am y Flwyddyn £'000	Gweddill ar 31/03/2009 £'000	Diben y Gronfa
Cronfa Ailbrisio	38	22,619	203,426	226,045	Storfa enillion wrth adbrisio asedau sefydlog gwerthiannau heb eu gwireddu
Cyfrif Addasu Cyfalaf	39	454,410	(56,162)	398,248	Storfa adnoddau cyfalaf a neilltuwyd i ar gyfer gwariant a fu
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	42	(2,819)	213	(2,606)	Cyfrif cydbwyso i ddarparu ar gyfer gwahaniaethau mewn gofynion statudol ac arferion cyfrifyddu priodol ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau
Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	43	12,438	(452)	11,986	Derbyniadau gwerthu asedau sefydlog ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol
Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	44	127	(28)	99	gwelwch nodyn 43
Pensiynau Wrth Gefn		(156,053)	(62,676)	(218,729)	Cyfrif cydbwyso i ganiatáu cynnwys atebolrwydd pensiynau yn y Fantolen
Cyfrif Ôl-gyflogau Cyflogau Anghyfartal		(5,600)	0	(5,600)	Cyfrif cydbwyso i ddarparu ar gyfer atebolrwydd ôl-gyflogau all godi
Gweddill Cronfa'r Cyngor		6,952	66	7,018	Adnoddau ar gael i dalu costau cynnal y dyfodol ar gyfer gwasanaethau heblaw tai
Gweddillion Ysgolion		1,975	(1,027)	948	Adnoddau ar gael i dalu costau cynnal ysgolion yn y dyfodol
Y Cyfrif Cyllid Tai		3,247	162	3,409	Adnoddau ar gael i dalu costau cynnal tai'r cyngor yn y dyfodol
Adnoddau wrth gefn a glustnodwy	40	14,534	(2,198)	12,336	
Cyfanswm		**351,830**	**81,324**	**433,154**	

38. Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio'n cofnodi'r enillion sydd wedi cronni ar yr asedau sefydlog yn nwylo'r Cyngor yn deillio o gynnydd yn eu gwerth (i'r graddau na chollwyd yr enillion hyn oherwydd symudiadau dilynol yn eu gwerth i lawr).

2008/09 £'000		2009/10 £'000
12,214	Swm Agoriadol	22,619
10,612	Enillion ar adbrisio asedau sefydlog	207,194
(207)	Trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	(3,768)
22,619	Swm wrth Gau	226,045

Mae'r trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn cynrychioli a) swm hafal i'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiad gwerth presennol a godwyd ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi cael ei godi ar sail eu cost hanesyddol a b) unrhyw ennill o adbrisio o ran gwarediadau.

39. Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn cynnwys symiau sy'n cael eu rhoi o'r neilltu o dderbyniadau cyfalaf ar gyfer ad-dalu dyledion, a'r symiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf.
Mae hefyd yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng symiau a ddarparwyd ar gyfer dibrisiad ac amhariad asedau a'r hyn sy'n gorfod cael ei godi ar gyllid i ad-dalu dyled, a hefyd cost hanesyddol asedau wedi'i dibrisio ar adeg gwaredu.

2008/09 £'000		2009/10 £'000
467,572	Swm Agoriadol	454,410
(995)	Symiau a ddiddymwyd oddi ar weddillion asedau sefydlog am wared	(1,208)
207	Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbrisio	3,768
401	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd	174
447	Codi cyfalaf - derbyniadau cyfalaf	1,579
(7)	Arall - ad-dalu benthyciadau i gyrff gwirfoddol	(10)
	Trosglwyddiadau o Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor:	
(26,897)	Dibrisiad, amhariad ac amorteiddiad asedau sefydlog	(77,163)
1,682	Amorteiddiad grantiau gohiriedig y llywodraeth	2,345
1,896	Amorteiddiad grantiau i gyllido gwariant cyfalaf annyrchafedig	4,273
(419)	Gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud	(1,039)
5,173	Cyfraniad cyllid at godi cyfalaf	4,171
5,350	Isafswm darpariaeth refeniw	6,948
454,410	Swm wrth Gau	398,248

40. Adnoddau wrth Gefn a Glustnodwyd

Neilltuwyd adnoddau wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer gweithgareddau penodol. Y canlynol yw manylion adnoddau wrth gefn y Cyngor:

	31/03/2009 £'000	Symudiad am y flwyddyn	31/03/2010 £'000
	£'000	£'000	£'000
Adnoddau wrth gefn Gwasanaethau	1,144	(534)	610
Adnoddau wrth gefn Ymrwymiadau Cyfreithiol	302	14	316
Adnoddau wrth gefn cynnal yn y gaeaf	67	233	300
Adnoddau wrth gefn ITEC	1,060	(26)	1,034
Adnoddau wrth gefn Adfywiad y Waun	28	(9)	19
Adnoddau wrth gefn Buddsoddi I Gynilo	121	146	267
Adnoddau wrth gefn Sefydlogi Incwm	102	0	102
Adnoddau wrth gefn y Cynllun Datblygu Lleol	247	(107)	140
Adnoddau wrth gefn Ymddeoliad Cynnar	129	(35)	94
Adnoddau wrth gefn Yswiriant	1,885	(34)	1,851
Adnoddau wrth gefn Strategaeth Wastraff	139	(44)	95
Strategaeth Datblygu Economaidd	49	(4)	45
Gogledd Gororau Cymru	58	(37)	21
Pont Ddŵr Pontcysyllte	46	(16)	30
Adnoddau wrth gefn Ymddygiad Gwrthgymdeitha	122	(122)	0
Cyllid Cyfatebol Urban II	206	(70)	136
Cefnogi Pobl	684	(684)	0
Datblygu TG	56	(14)	42
Parcio wedi'i Ddad-droseddoli	165	(165)	0
Adolygiad Cyflogau	5,533	(111)	5,422
Adnoddau wrth gefn Adeiladau Ysgolion Uwchrad	1,000	0	1,000
Adnoddau wrth gefn Cyfnewid Offer yr Amlosgfa	84	41	125
Mynediad Cwsmeriaid	415	(31)	384
Adnoddau wrth gefn Allyriadau Carbon	0	200	200
Amrywiol	105	(45)	60
Gwaith trwsio tai	787	(744)	43
	14,534	(2,198)	12,336

41. Dadansoddiad o asedau clir a ddefnyddiwyd

2008/09 £'000		2009/10 £'000
285,957	HRA	385,245
65,873	Cronfa'r Cyngor	47,909
351,830		433,154

42. Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn darparu peirianwaith cydbwyso rhwng y gwahanol gyfraddau y mae enillion a cholledion, fel premiymau a gostyngiadau ar ad-dalu dyled yn gynnar, yn cael eu cydnabod dan SORP ac sy'n ofynnol eu talu o Gronfa'r Cyngor / HRA trwy statud.

31/03/2009 £'000		31/03/2010 £'000
(3,039)	Swm Agoriadol	(2,819)
	Trosglwyddiadau o Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor / HRA:	
220	Swm y gwahaniaeth rhwng costau cyllid a gyfrifwyd yn unol â SORP a chostau cyllid a gyfrifwyd yn yn unol â gofynion statudol	213
(2,819)	Swm wrth Gau	(2,606)

43. Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn

31/03/2009 £'000		31/03/2010 £'000
11,777	Swm Agoriadol	12,438
994	Derbyniadau o warediadau asedau sefydlog yn y flwyddyn	773
465	Incwm cyllid a ddiffiniwyd fel cyfalaf trwy statud	490
43	Trosglwyddiad o dderbyniadau cyfalaf gohiriedig	28
7	Ad-daliad benthyciadau i gyrff gwirfoddol	10
(401)	Neilltuo Derbyniadau Cyfalaf	(174)
(447)	Symiau a ddefnyddiwyd i gyllido buddsoddiad cyfalaf newydd	(1,579)
12,438	Swm wrth Gau	11,986

44. Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

31/03/2009 £'000		31/03/2010 £'000
170	Swm Agoriadol	127
(43)	Trosglwyddiad i dderbyniadau cyfalaf defnyddiadwy	(28)
127	Swm wrth Gau	99

Mae derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn cynrychioli'r derbynion gwerthiant gohiriedig o dai cyngor a werthwyd i denantiaid, ac a gyllidwyd trwy roi morgeisi. Mae'n cydbwyso swm tebyg mewn dyledwyr hirdymor (gwelwch nodyn 20) sef morgeisi dyledus. Wrth i ad-daliadau morgais gael eu gwneud, bydd derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn cael eu gostwng a derbyniadau defnyddiadwy yn dod ar gael.

45. Cronfeydd Ymddiried

Mae'r Cyngor yn gweinyddu nifer o gronfeydd ymddiried cysylltiedig â gwasanaethau penodol. Mae natur y rhain yn amrywiol, ac yn perthyn yn bennaf i gymynroddion a adawyd i'r Cyngor, at ddibenion addysg. Nid yw trafodion y cronfeydd ymddiried hyn yn y Cyfrif I&E na'r Fantolen. Mae crynodeb o drafodion y gronfa ymddiried addysg fel a ganlyn:

2008/09 £'000		2009/10 £'000
143	Swm Agoriadol	150
8	Llog Buddsoddiad	1
(1)	Dyfarniadau i ysgolion	(8)
150	Swm wrth Gau	143

Caiff y swm wrth gau uchod ei gynrychioli gan £143k o arian parod.

46. Gofal Cymdeithasol – Cronfeydd Gofal Diogel ac Amwynder

Cyfrifon Gofal Diogel – Mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn cynnal cyfrifon unigol Gofal Diogel ar ran defnyddwyr y gwasanaeth sy'n byw yn y gymuned ac sy'n methu ymdrin â'u materion ariannol oherwydd anallu meddyliol. Y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yw'r apwyntai gyda'r adran Gwaith a Phensiynau dros bob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Y gweddill ar 31 Mawrth 2010 oedd £1,637k (£1,878k ar 31 Mawrth 2009) sy'n adlewyrchu'r arian sy'n cael ei ddal gan y Cyngor ar ran defnyddwyr ei wasanaeth.

Cronfeydd Amwynder – Mae cronfeydd amwynder yn cynrychioli cronfeydd sy'n cael eu dal ar ran sefydliadau fel canolfannau dydd a chartrefi preswyl. Mae taliadau am eitemau a brynwyd er lles preswylwyr a chleientiaid y sefydliadau hyn a daw'r incwm o roddion ac anrhegion teuluoedd cleientiaid a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig. Y gweddill ar 31 Mawrth 2010 oedd £19,974 (£16,526 ar 31 Mawrth 2009).

Nid yw'r trafodion uchod yn y Cyfrif I&E na'r Fantolen.

47. Dadansoddiad o Weddillion arian parod a chywerthoedd arian parod

	31/03/2009 £'000	Symudiad £'000	31/03/2010 £'000
Newid mewn arian parod:			
Arian parod gyda swyddogion cyfrifyddu	79	(6)	73
Arian parod dyledus	(2,844)	(1,770)	(4,614)
	(2,765)	(1,776)	(4,541)
Rheoli adnoddau hylifol:			
Buddsoddiadau byrdymor	38,369	(4,369)	34,000
Arall - derbyniadau NNDR a ordalwyd i LlGC	1,611	4,285	5,896
	39,980	(84)	39,896

Bu lleihad yn y gweddillion mewn llaw o arian parod a chywerthoedd arian parod gan adlewyrchu'r mewnlif clir o holl weithgareddau.

48. Dadansoddiad o Newidiadau Cyllido

	Ailddatganwyd 31/03/2009 £'000	Symudiad £'000	31/03/2010 £'000
Benthyca Hirdymor (dyledus mewn mwy na blwyddyn):			
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	(109,053)	2,490	(106,563)
Benthyciadau eraill	(23,800)	0	(23,800)
	(132,853)	2,490	(130,363)
Benthyca byrdymor	(910)	(3,767)	(4,677)
Cyfanswm Benthyca	(133,763)	(1,277)	(135,040)

49. Cysoni'r Cyfrif Incwm a Gwariant â Llif Arian Gweithgareddau Cyllidol

Ailddatganwyd 2008/09 £'000		2009/10 £'000	2009/10 £'000
19,113	Diffyg am y flwyddyn yn y Cyfrif I&E		64,331
(5,242)	Llog Clir		(7,335)
	Trafodion Heblaw Arian Parod		
(26,897)	Dibrisiad, amhariad ac amorteiddiad asedau sefydlog	(77,163)	
1,682	Amorteiddiad gohiriedig Grantiau'r Llywodraeth	2,345	
1,896	Amorteiddiad grantiau'n cyllido gwariant cyfalaf annyrchafedig	4,273	
0	Colled wrth waredu asedau sefydlog	(435)	
(419)	Gwariant cyllidol wedi'i gyllido o gyfalaf trwy statud	(1,039)	
465	Incwm cyllid a ddiffiniwyd fel cyfalaf trwy statud	490	
(1,683)	Trosglwyddiad i / (o) adnoddau pensiynau wrth gefn	(1,137)	
314	Trosglwyddiad (i) / o'r Darpariaethau	40	
(147)	Trosglwyddiad (i) / o'r ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion	(418)	
(9)	(Premiwm) / Gostyngiad wrth ad-drefnu	(10)	
			(73,054)
	Eitemau ar Sail Croniadau		
(35)	Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Stociau	(142)	
0	Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Dyledwyr	(2,146)	
751	Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Taliadau ymlaen llaw	(547)	
4,554	(Cynnydd) / Gostyngiad mewn Credydwyr	846	
(17)	(Cynnydd) / Gostyngiad mewn Derbyniadau ymlaen llaw	96	
			(1,893)
(5,674)	Mewnlif arian clir o weithgareddau cyllidol		(17,951)

50. Grantiau'r Llywodraeth

		2008/09 £'000	2009/10 £'000
Cyllid			
Llywodraeth Cynulliad Cymru -	Plant ac Addysg	14,220	13,318
	Tai (Arall)	4,823	5,076
	Cyllid	331	133
	Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	2,920	4,113
	Cludiant	3,683	3,622
	Datblygu Economaidd	859	1,913
	Cynllunio	70	70
	Yr Amgylchedd - Strategaeth Wastraff	2,036	2,410
	PFI	0	1,681
	Arall	208	123
	Diogelu'r Cyhoedd	71	79
	Hamdden	540	1,019
Y Loteri	Addysg a Hamdden	640	278
Y Swyddfa Gartref	Datblygiad a'r Gwasanaethau Cymdeithasol	217	269
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Y Gwasanaethau Cymdeithasol	454	507
Grantiau eraill y Llywodraeth	e.e. DCA, Grantiau'r UE, ac ati	1,276	879
		32,348	35,490
Cyfalaf			
Llywodraeth Cynulliad Cymru -	Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,068	2,081
	Lwfans Atgyweiriadau Mawr	7,600	7,600
	Grant Penodol Ardal Adnewyddu	1,850	1,900
	Grant Gwella Adeiladau Ysgolion	1,923	1,301
	Cludiant	1,528	1,658
	Cronfa Adfywio Lleol / Ffisegol	138	0
	ERDF / WEFO	179	0
	SCIF	0	1,820
	Y Blynyddoedd Cynnar	288	287
	Grant Cynnal Ffyrdd	553	653
	Arall	2,224	2,560
Arall		1,554	1,336
		19,905	21,196

CYFRIF INCWM A GWARIANT Y CYFRIF CYLLID TAI

2008/09 £'000		Nodyn	2009/10 £'000	2009/10 £'000
	Incwm			
(32,221)	Rhenti Anheddau		(34,318)	
(767)	Rhenti eraill		(860)	
(221)	Taliadau am wasanaethau a chyfleusterau		(237)	
0	Incwm Arall		(402)	
(815)	Amorteiddiad Gohiriedig Grantiau'r Llywodraeth		(1,141)	
(34,024)	**Cyfanswm Incwm**			(36,958)
	Gwariant			
11,930	Trwsio a Chynnal	4	13,594	
4,492	Goruchwylio a Rheoli		4,384	
669	Gwasanaethau Arbennig		689	
296	Rhenti, ardrethi, trethi a thaliadau eraill		54	
11,212	Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai sy'n daladwy		11,412	
11,965	Dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog	7	21,254	
11	Costau Rheoli Dyledion		7	
67	Cynnydd yn narpariaeth drwgddyledion	3	94	
40,642	**Cyfanswm Gwariant**			51,488
6,618	**Cost glir Gwasanaethau HRA fesul Cyfrif Incwm a Gwariant yr Awdurdod**			**14,530**
17	Cyfran HRA o symiau eraill sydd yn rhan o Gost Glir Gwasanaethau'r awdurdod cyfan ond heb eu clustnodi i wasanaethau penodol	9		145
6,635	**Cost Glir Gwasanaethau HRA**			**14,675**
20	Colled ar werthu asedau sefydlog HRA / Costau gweinyddol			0
1,015	Llog taladwy a chostau tebyg			914
(202)	Llog ac incwm o fuddsoddiad			(20)
744	Cost llogau pensiwn ac elw disgwyliedig ar asedau pensiwn	9		1,103
8,212	**Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau HRA**			**16,672**

DATGANIAD SYMUDIAD YNG NGWEDDILL Y CYFRIF CYLLID TAI

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn dangos gwir berfformiad ariannol yr HRA am y flwyddyn, o'i fesur trwy'r adnoddau a ddefnyddiwyd ac a gynhyrchwyd dros y deuddeg mis diwethaf. Fodd bynnag, mae gofyn i'r HRA godi rhent ar wahanol sail gyfrifyddu, a'r prif wahaniaethau yw:

a) Caiff buddsoddiad cyfalaf ei gyfrif wrth ei gyllido, yn hytrach na phan gaiff yr asedau sefydlog eu defnyddio.

b) Caiff budd-daliadau ymddeol eu codi fel symiau sy'n dod yn daladwy i gronfeydd pensiwn a phensiynwyr, yn hytrach nag wrth ennill budd-daliadau yn y dyfodol.

Mae Gweddill HRA yn cymharu gwariant HRA gyferbyn â'r rhent a godwyd am y flwyddyn, gan ystyried defnyddio adnoddau wrth gefn a gronnwyd yn y gorffennol a chyfraniadau at adnoddau wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

Mae'r datganiad cysoni hwn yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng yr alldro ar y Cyfrif Incwm a Gwariant (I&E) a Gweddill yr HRA.

2008/09 £'000		Nodyn	2009/10 £'000	2009/10 £'000
8,212	Diffyg am y flwyddyn yng Nghyfrif I&E yr HRA			16,672
	Eitemau sydd yng Nghyfrif Incwm a Gwariant yr HRA ond heb eu cynnwys wrth benderfynu Symudiad yng Ngweddill yr HRA am y flwyddyn			
44	Gwahaniaeth rhwng llog taladwy a chostau tebyg gan gynnwys amorteiddio premiymau a gostyngiadau a benderfynwyd yn unol â SORP a'r rhai a benderfynwyd yn unol â statud		39	
815	Amorteiddiad Gohiriedig Grant y Llywodraeth		1,141	
(15)	Colled wrth werthu asedau sefydlog HRA		0	
(5)	Gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud		(5)	
0	Incwm cyllidol a ddiffiniwyd fel cyfalaf trwy statud		402	
0	Amorteiddio asedau sefydlog	7	(62)	
(11,965)	Dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog	7	(21,192)	
(2,062)	Taliadau clir a wnaed am fudd-daliadau ymddeol yn unol	9	(2,072)	
(13,188)	â FRS17			**(21,749)**
	Eitemau heb eu cynnwys yng Nghyfrif Incwm a Gwariant yr HRA ond sy'n ofynnol eu cynnwys wrth benderfynu'r Symudiad yng Ngweddill yr HRA am y flwyddyn			
(781)	Trosglwyddiad (o'r) Cyfrif Gwaith Trwsio Tai	4	(744)	
(150)	Trosglwyddiad o'r Adnoddau wrth Gefn		0	
1,716	Cyfraniadau'r cyflogwr taladwy i'r Gronfa Bensiwn a budd-daliadau ymddeol sy'n daladwy yn uniongyrchol i bensiynwyr	9	1,733	
341	Isafswm Darpariaeth Refeniw HRA		326	
4,700	Gwariant Cyfalaf a gyllidwyd gan yr HRA	5	3,600	
5,826				**4,915**
850				**(162)**
	Gostyngiad / (Cynnydd) yng Ngweddill y Cyfrif Cyllid Tai			
(4,097)	Gwarged y Cyfrif Cyllid Tai a ddygwyd ymlaen			(3,247)
(3,247)	**Gwarged y Cyfrif Cyllid Tai i'w ddwyn ymlaen**			**(3,409)**

NODIADAU AR DDATGANIADAU'R CYFRIF CYLLID TAI

1. Y Stoc Dai

Roedd cyfanswm stoc dai'r Fwrdeistref Sirol fel a ganlyn:-

Fel yr oedd ar 31/03/09		Fel yr oedd ar 31/03/10
7,128	Tai	7,128
1,063	Tai unllawr	1,064
2,696	Fflatiau	2,695
651	Unedau dan reolaeth Warden	651
11,538		11,538

2. Ôl-ddyledion Rhent

Cyfanswm ôl-ddyledion rhent ar 31 Mawrth 2010 oedd £1,044k. Y ffigur cyfatebol ar 31 Mawrth 2009 oedd £967k.

3. Darpariaeth ar gyfer Drwgddyledion

Cynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion trwy godi £94k ar y cyfrif I&E yn 2009/10 i roi gweddill o £723k ar ddiwedd y flwyddyn.

4. Cyfrif Gwaith Trwsio Tai

Roedd symudiad ar y Cyfrif Gwaith Trwsio Tai fel a ganlyn:-

2008/09 £'000		2009/10 £'000
12,040	Gwariant ar waith trwsio a chynnal	13,724
(110)	Llai: Incwm	(130)
11,930	Cost glir y gwaith trwsio a chynnal	13,594
11,149	Cyfraniad o HRA	12,850
781	Diffyg am y flwyddyn	744
(1,568)	Gweddill a ddygwyd ymlaen	(787)
(787)	Gweddill i'w ddwyn ymlaen	(43)

5. Datganiad Codi Cyfalaf

Crynodeb o gyfanswm gwariant cyfalaf o fewn yr HRA yn ystod y flwyddyn gyda ffynonellau cyllid.

2008/09		2009/10			
Cyfanswm £'000		Anheddau £'000	Eiddo Arall £'000	Asedau Anniriaethol £'000	Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf £'000
12,773	Gwariant yn y flwyddyn	11,641	938	309	12,888
0	Llai croniad cyfalaf	(74)	0	0	(74)
12,773		11,567	938	309	12,814
	Ariannwyd gan:-				
442	Derbyniadau Cyfalaf	1,575	0	0	1,575
7,600	Lwfans Atgyweiriadau Mawr	6,874	726	0	7,600
31	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalafol eraill	39	0	0	39
4,700	Gwariant Cyfalaf a godwyd ar Gyllid	3,079	212	309	3,600
12,773		11,567	938	309	12,814

6. Datganiad Derbyniadau Cyfalaf

Crynodeb o gyfanswm Derbyniadau Cyfalaf HRA a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyfanswm 2008/09 £'000		Cyfanswm 2009/10 £'000
426	Gwerthu Tai cyngor	130
70	Gwerthu Tai cyngor - Ad-dalwyd Gostyngiad	79
43	Ad-daliad Morgeisi	28
78	Gwerthu Tir	402
617		639

7. Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad asedau sefydlog

2008/09 £'000		Dibrisiad £'000	Amorteiddiad £'000	Amhariad £'000	Cyfanswm 2009/10 £'000
	Asedau gweithredol				
11,260	Anheddau	7,506	0	7,941	15,447
662	Tir ac adeiladau eraill	409	0	5,328	5,737
43	Cerbydau, cyfarpar ac offer	8	62	0	70
11,965		7,923	62	13,269	21,254

Nid yw'r costau dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad o ran asedau HRA yn cael eu codi mewn gwirionedd ar Weddill yr HRA. Cânt eu gwyrdroi allan yn Natganiad Symudiad Gweddill yr HRA, gyda'r tâl dibrisiad yn cael ei ddisodli gydag Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) yr HRA i dalu dyledion credyd, yn ôl gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifon) (Cymru) 2010. Caiff MRP ei gyfrifo trwy gyfeirio at ddyledrwydd yr HRA at ei gilydd.

8. Symiau a Gyfarwyddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Nid oedd unrhyw ddidyniadau o'r cymhorthdal ad-daliad rhent gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn 2009-10, gan fod rhenti'r Cyngor o fewn terfyn rhenti'r DWP.

9. Trafodion Cysylltiedig â Budd-daliadau Ymddeol

Cymhwyswyd y polisi ar gyfrif am gostau pensiynau i'r HRA (gwelwch nodyn 32 i'r Datganiadau Ariannol Creiddiol).

Caiff cost budd-daliadau ymddeol eu nodi yng Nghost Glir Gwasanaethau pan fydd cyflogeion yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y budd-daliadau'n cael eu talu fel pensiynau maes o law. Fodd bynnag, seiliwyd yr hyn sydd i'w godi ar yr HRA ar gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn. Felly caiff gwir gostau budd-daliadau ymddeol eu gwyrdroi allan yn natganiad Symudiad yng Ngweddill yr HRA.

Gwnaed y trafodion canlynol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Symudiad yng Ngweddill yr HRA yn ystod y flwyddyn:

2008/09 £'000		2009/10 £'000
	Cyfrif Incwm a Gwariant	
	Cost Glir Gwasanaethau:	
1,300	Costau Gwasanaethau Presennol	824
17	Costau / Cwtogiad Gwasanaethu'r Gorffennol	145
	Gwariant Gweithredu Clir:	
2,769	Cost llogau ar atebolrwydd pensiwn crynswth	2,675
(2,024)	Elw disgwyliedig ar asedau pensiwn crynswth	(1,572)
2,062	*Yr hyn a godwyd yn glir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant*	2,072
	Datganiad Symudiad yng Ngweddill yr HRA	
(2,062)	Gwrthdroad taliadau clir a wnaed ar gyfer budd-daliadau ymddeol yn unol â FRS17	(2,072)
1,716	Cyfraniadau'r cyflogwr taladwy i Gynllun Cronfa Bensiynau Clwyd	1,733

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Datganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw'r Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad Symudiad yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor, Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, Mantolen, Datganiad Llif Arian, Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Cyllid Tai a Datganiad Symudiad yng Ngweddill y Cyfrif Cyllid Tai. Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu dan y polisïau cyfrifyddu yn y Datganiad Polisïau Cyfrifyddu.

Gwneir yr adroddiad hwn yn unig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, yn ôl paragraff 46 o'r *Datganiad Cyfrifoldebau* a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru.

Cyfrifoldebau priodol y swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Caiff cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol dros baratoi'r datganiad cyfrifon, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009 eu cyflwyno yn y Datganiad o Gyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Rhyngwladol ar archwilio (y DU ac Iwerddon).

Rwy'n cyflwyno adroddiad i chi o fy marn a yw'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig yn rhoi golwg cywir a theg, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009 a sefyllfa ariannol y corff llywodraeth leol a'i incwm a gwariant am y flwyddyn.

Rwy'n adolygu a yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfio â 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith' a gyhoeddwyd gan GIPFA/ SOLACE ym mis Mehefin 2007. Byddaf yn hysbysu os nad yw'n cydymffurfio ag arferion priodol a bennwyd gan GIPFA/SOLACE neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad. Nid oes gofyn i mi ystyried, ac ni ystyriais, a yw'r Datganiad Llywodraethu'n cwmpasu holl risgiau a rheolaethau. Nid oes gofyn i mi chwaith ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau corfforaethol llywodraethu'r corff llywodraeth leol na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Byddaf yn darllen gwybodaeth arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ac yn ystyried a yw'n cyd-fynd â'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw'r wybodaeth arall hon yn ddim ond y Rhagair Esboniadol. Byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn yr archwiliad

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Arferion Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru, a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys arolwg, ar sail prawf, o dystiolaeth berthnasol i'r symiau a dadleniadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a dyfarniadau a wnaed gan y corff llywodraeth leol wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu ac a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r corff llywodraeth leol, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u dadlennu'n ddigonol.

Cynlluniais a gwnes fy archwiliad fel ag i gael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriwn yn angenrheidiol er mwyn cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu anghysondeb arall neu gamgymeriad. Wrth ffurfio fy marn cloriannais hefyd ddigonolrwydd at ei gilydd cyflwyno gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Yn fy marn i mae'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig yn rhoi golwg gywir a theg, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009 dros sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a gwariant am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny.

Casgliad ar drefniadau ar gyfer sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

Bydd fy nghasgliad ar drefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 yn cael ei hysbysu ar wahân yn y Llythyr Archwilio Blynyddol cyhoeddedig.

Tystysgrif gwblhau

Tystiaf fy mod wedi gorffen archwilio cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004 a'r Cod Arferion Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru.

Llofnod: **Dyddiad:**

Enw: ***Anthony Barrett*** **Cyfeiriad:** ***Swyddfa Archwilio Cymru***
Uned 4
Evolution
Pentre Busnes Lakeside
Parc Dewi Sant
Ewloe
CH5 3XP

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Systemau Gwybodaeth yw cynhaliaeth a chywirdeb gwefan y Cyngor; nid yw gwaith yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, o ganlyniad, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf ar y wefan.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2010

1 Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â chyfarwyddyd y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddiaeth Cyhoeddus (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE), 'Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Dda mewn Llywodraeth Leol'. Mae'n cwmpasu elfennau rheolaeth ariannol fewnol sy'n ofynnol yn ôl y 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig'.

2 Cwmpas Cyfrifoldeb

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith ac i safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu gyda chyfrif priodol amdano, a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac effeithiol. Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaol yn sut mae ei swyddogaethau'n cael eu harfer, gyda golwg ar effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaeth, argaeledd gwasanaeth, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

2.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor y'n gyfrifol am fod â threfniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, hyrwyddo arfer ei swyddogaethau'n effeithiol gan gynnwys trefniadau er rheoli risg.

2.3 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod rheolaeth gorfforaethol, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol'. Mae Copi o'r cod ar ein gwefan www.wrexcsam.gov.uk/welsh/council_w/documents/code_corporate_governance.htm**,** neu maent i'w cael oddi wrth y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad. Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r cod a hefyd yn ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

3 Diben y Fframwaith Llywodraethu

3.1 Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y cyfundrefnau a phrosesau, a diwylliant a gwerthoedd, sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau trwy'r hwn mae'n rhoi cyfrif i'r gymuned, yn ymwneud â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi i'r awdurdod gadw golwg ar gyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflawni gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

3.2 Mae cyfundrefn rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu holl risg o beidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac ni all felly ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid diamod o effeithiolrwydd. Seiliwyd cyfundrefn rheolaeth fewnol ar broses barhaol a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisi, nodau ac amcanion y Cyngor, i fesur tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynnil.

3.3 Bu'r fframwaith llywodraethu yn weithredol yn y Cyngor am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

4 Y Fframwaith Llywodraethu

Mae elfennau allweddol fframwaith llywodraethu'r Cyngor fel a ganlyn:

4.1 Mae'r **Strategaeth Gymunedol** yn cyflwyno gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol – partneriaeth o ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus allweddol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cynnwys y Cyngor – ar gyfer gwella ansawdd bywyd o ran ffyniant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned gyfan. Mae'r holl sefydliadau partner sy'n aelodau o'r Bwrdd yn cytuno arni. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid y Cyngor o ran penderfynu'r blaenoriaethau sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth yn y Strategaeth.

4.2 Mae'r **broses gynllunio gwasanaethau'n** sefydlu ac yn cyfleu'r blaenoriaethau hynny a sut i'w cyflawni, ac mae hefyd yn galluogi ymdoddi ymrwymiadau cydraddoldeb a chynaliadwyedd y Cyngor, gan gynnwys y rhai o'i ymrwymiad blaenoriaethol cytûn i leihau allyriadau carbon, yn ei waith bob dydd. Caiff gwelliannau a thargedau arfaethedig eu cyflwyno yng **Nghynllun y Cyngor** bob blwyddyn.

4.3 Mae'r **Polisi Rheoli Risg** yn gofyn cyfranogiad rhagweithiol pawb sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi gwasanaethau wrth nodi, cloriannu a rheoli risgiau sylweddol i flaenoriaethau, gwasanaethau a phrosiectau mawr y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys asesiad penodol o'r risgiau hynny sy'n cael eu hystyried yn strategol i flaenoriaethau'r Cyngor. Caiff y risgiau a'r rheolaethau angenrheidiol i'w rheoli eu cofnodi yn y gofrestr risgiau corfforaethol, a chaiff unrhyw welliannau gofynnol i reolaethau eu harolygu er mwyn sicrhau eu gweithredu.

4.4 Mae prosesau'n bodoli i sicrhau **defnyddio adnoddau'n gynnil, effeithiol ac effeithlon** a **sicrhau gwelliant parhaol** yn sut y caiff y swyddogaethau eu harfer. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau mewnol ac yn allanol gan archwilwyr ac arolygwyr, gan gydweithredu â Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i 'Raglen Cymru ar gyfer Gwella' a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a rhaglen Drawsffurfio sy'n anelu at sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb heriau ariannol y dyfodol.

4.5 Y **Cyfarwyddwyr Strategol a Pherfformiad** sy'n atebol am sicrhau bod Blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni, ac mae perfformiad gyferbyn â thargedau allweddol yn cael ei arolygu'n rheolaidd trwy'r **fframwaith rheoli perfformiad** a'i hysbysu'n rheolaidd i'r aelodau.

4.6 Er mwyn sicrhau cyflenwi gwasanaethau a chwblhau prosiectau'n llwyddiannus, caiff cefnogaeth ac arweiniad canolog eu darparu o ran **rheoli prosiectau a chaffael**. Caiff gweithdrefnau ar gyfer tendro a dyfarnu contractau eu cynnwys yn y Rheoliadau Ariannol.

4.7 Mae'r **Cyfansoddiad,** sydd i'w weld ar wefan y Cyngor, yn pennu:

- sut mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau;
- y gweithdrefnau sy'n sicrhau bod gwneud penderfyniadau'n agored ac atebol i bobl leol a rhanddeiliaid eraill;
- swyddogaethau allweddol holl aelodau ac uwch-swyddogion, gan gynnwys cyfrifoldebau arweiniol at ddibenion llywodraethu corfforaethol yr Arweinydd, y Prif Weithredwr ac uwch-swyddogion penodedig eraill;
- cynllun o bwerau dirprwyedig ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- y cyfrifoldebau dros adolygu a chytuno ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor;
- y trefniadau ar gyfer sicrhau ei fod yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd;
- ei godau a phrotocolau cysylltiedig.

4.8 Caiff **ffurfio polisi a gwneud penderfyniadau** eu hwyluso trwy (i) y **Bwrdd Gweithredol**, gyda'i gyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd heblaw pan fo materion eithriedig neu gydgyfrinachol yn cael eu trafod, a (ii) **cynllun dirprwyo** i bwyllgorau a swyddogion yn ôl y Cyfansoddiad: pump o **bwyllgorau craffu** sy'n adolygu ac yn archwilio perfformiad y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau penderfynu a swyddogion ac yn eu dal yn atebol. Mae'r Cyfansoddiad yn ymgorffori proses "Alw i Mewn" i'w Archwilio ar gyfer penderfyniadau a wnaed ond na weithredwyd eto er mwyn ystyried eu priodoldeb.

4.9 Oni bai eu bod yn gydgyfrinachol, mae holl **adroddiadau** a ystyriwyd gan y Cyngor, ei Fwrdd Gweithredol a Phwyllgorau a **chofnodion** penderfyniadau a wnaed i'w gweld ar wefan y Cyngor.

4.10 Mae trefniadau cadarn ar gyfer **rheolaeth ariannol** effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu, cyfundrefnau ariannol allweddol a Rheoliadau Ariannol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau sefydledig cynllunio'r gyllideb, sy'n agored i asesiad risg, ac adroddiadau misol ar y gyllideb i'r holl aelodau'n cymharu gwir wariant cyllid a chyfalaf â chyllidebau blynyddol. Y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol, yn ôl gofynion Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae trefniadau **Rheoli Trysorfa'r** Cyngor yn dilyn arfer proffesiynol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

4.11 Mae'r **fframwaith llywodraethu moesegol** yn cynnwys:

- codau ymddygiad ar gyfer swyddogion ac aelodau, sy'n cael eu hadolygu, eu diweddaru a'u profi'n rheolaidd am gydymffurfiad;
- cod ymddygiad cynllunio;
- protocol yn llywodraethu cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion;
- polisi datgelu camymarfer sy'n cael ei gyfathrebu'n eang o fewn y Cyngor ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd;
- cofrestri buddiannau personol a busnes;
- polisi cytûn a gweithdrefnau corfforaethol cysylltiedig ar gyfer sicrhau bod modd gwneud cwynion ynghylch gwasanaethau yn briodol a'u hymchwilio, ac er mwyn sicrhau bod modd cymhwyso unrhyw wersi.

4.12 Prif Swyddog y Gyfraith a Gwasanaethau Democrataidd yw'r '**Swyddog Arolygu**' penodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig. Ar ôl ymgynghori priodol, bydd y cyfryw swyddog yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn o ran unrhyw gynigion, penderfyniadau neu ddiffygion a allai fod yn anghyfreithlon neu sydd wedi bod yn destun Ymchwiliad yr Ombwdsmon a arweiniodd at ganfod camweinyddiad.

4.13 Mae trefniadau **gwrth-dwyll a llygredigaeth** sefydledig yn ataliad, yn hyrwyddo datgeliad, yn dangos llwybr clir i ymchwiliad ac yn hybu rhwystro. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau a luniwyd i ymladd gwyngalchu arian, ac adnoddau unswydd pan fo cyfiawnhad.

4.14 Y **Pwyllgor Archwilio** sy'n ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor, yn arolygu gwaith archwilwyr ac arolygwyr ac yn cadw golwg ar y cysylltiadau rhwng archwilwyr a staff a'r ymatebion i argymhellion archwiliadau ac arolygon. Mae ganddo gyfrifoldeb hefyd dros gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'i adroddiadau cysylltiedig (sy'n cynnwys y datganiad hwn).

4.15 **Archwiliad Mewnol** – sy'n gweithredu i safonau'r 'Cod Ymarfer ar Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006' a gynhyrchwyd gan CIPFA, ac mae ei swyddogaeth a'i statws yn cael eu pennu yng Nghylch Gorchwyl Archwiliad Mewnol y Cyngor. Mae'r Rheolwr Archwiliad a Thechnegol yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r archwiliad am bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio, ac mae hefyd yn cyflwyno adroddiad barn bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheolaeth y Cyngor at ei gilydd.

4.16 Mae gan y Cyngor berthynas wrthrychol a phroffesiynol gyda'i **archwilwyr allanol** ac arolygwyr statudol, yn ôl tystiolaeth Llythyr Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru at yr aelodau. Mae hwn i'w weld ar wefan y Cyngor.

4.17 Mae'r **Pwyllgor Safonau**, sy'n cynnwys mwyafrif o gynrychiolwyr annibynnol, yn cynghori ac yn cadw golwg ar God Ymddygiad Aelodau, y Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelod a Swyddogion, ac unrhyw Godau eraill perthnasol i ymddygiad Aelodau, a goruchwylio unrhyw ymchwiliadau o doriadau honedig Cod Ymddygiad Aelodau. Mae hefyd yn goruchwylio trefniadau'r Cyngor ar ddatgelu camymarfer.

4.18 Mae **trefnau denu staff** y Cyngor yn darparu cydraddoldeb cyfleoedd cyflogaeth. Mae **strwythur cyflogau a aseswyd am gydraddoldeb** yn ateb gofynion Cytundeb Statws Unigol 1997.

4.19 Bwriad y **Strategaeth Adnoddau Dynol** yw creu fframwaith syml o bolisïau integredig, gweithdrefnau a chynlluniau sy'n cefnogi pob un o gyflogeion y Cyngor wrth gyflenwi'r gwasanaethau. Mae **fframwaith cymhwysedd cyflogeion** yn broses gloriannu i adolygu perfformiad unigol ac i helpu sicrhau bod cyflogeion yn ddigon medrus ar gyfer eu gwaith.

4.20 Mae trefniadau cytûn yn galluogi i'r Cyngor gydymffurfio â gofynion statudol ar **amddiffyn plant** a **diogelu oedolion agored i niwed**. Mae trefnau denu staff yn helpu sicrhau bod addasrwydd gweithwyr ac aelodau'r Cyngor sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed yn cael ei gadarnhau.

4.21 Yn unol â'i gyfrifoldebau statudol, mae **Polisi Iechyd a Diogelwch** a gweithdrefnau cysylltiedig gan y Cyngor.

4.22 Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol i warchod gwybodaeth bersonol, mae'r Cyngor yn gweithredu polisi **Gwarchod Data** ac mae ganddo amrywiol bolisïau ar gyfer sicrhau defnyddio gwybodaeth yn briodol a rheoli technoleg gwybodaeth yn effeithlon ac effeithiol. Mae ganddo weithdrefnau hefyd i gyflawni ei gyfrifoldebau dan **Reoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd** a **Deddf Rhyddid Gwybodaeth** 2000. Er mwyn cydymffurfio â'r ail, mae gwefan y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd ar wybodaeth y bydd y Cyngor yn ei chyhoeddi fel mater o drefn. Mae hyn yn cynnwys lwfansau sy'n cael eu talu i aelodau yn unol â darpariaethau statudol.

4.23 Mae'r Cyngor yn dal Siarter CLlLC o ran **Cefnogi a Datblygu Aelodau** ac, felly, mae ganddo drefnau sefydledig i asesu anghenion hyfforddiant aelodau ac uwch-swyddogion a sicrhau, lle bo angen, eu bod yn cael hyfforddiant priodol.

4.24 Mae'r strategaeth gytûn ar **gyfathrebu** allanol a mewnol yn gysylltiedig â flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac yn cynnwys prosesau ar gyfer adolygu ei effeithiolrwydd.

4.25 Mae'r Cyngor wedi cytuno ar egwyddorion a phrosesau i sicrhau bod ei amcanion, blaenoriaethau a gwerthoedd yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu wrth weithio mewn **partneriaeth**.

4.26 Nod y **Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol** yw rheoli asedau eiddo'r Cyngor yn strategol yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor.

4.27 Mae **Strategaeth Rhoi Sylw i Gwsmeriaid** yn cyflwyno ymrwymiad y Cyngor i gyflenwi gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion ei holl gwsmeriaid o ran mynediad rhwydd, ansawdd gwasanaeth, ymrwymiadau cydraddoldeb y Cyngor, rhwyddineb defnyddio, dysgu trwy broblemau a chyflawni'r hyn sydd o bwys i gwsmeriaid.

4.28 Mae'r Cyngor yn ymroddi'n benodol i wneud **cydraddoldeb** yn wirionedd wrth ddarparu gwasanaethau, yn ei swyddogaeth fel cyflogwr ac fel arweinydd cymunedol allweddol. Mae ganddo drefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ymrwymiadau cydraddoldeb statudol.

4.29 Mae trefnau cytûn i ateb gofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

4.30 Mae'r **Cydbwyllgor Ymgynghorol** rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur yn galluogi ymgynghori'n rheolaidd gyda chyflogeion.

4.31 Cytunwyd ar **drefniadau rheoli mewn argyfwng** a chynlluniau i alluogi **parhad gwasanaethau allweddol**.

5 Adolygu Effeithiolrwydd

5.1 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros gynnal, o leiaf bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys cyfundrefn rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad effeithiolrwydd ei ysbrydoli gan waith rheolwyr gweithredol yr awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd lywodraethu, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau'r archwilwyr allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill.

5.2 Mae'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynnal, adolygu a gwella effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu'n cynnwys:

i) adolygiadau blynyddol o'r Cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu moesegol (gan gynnwys maint y cydymffurfiad â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio) gan y Swyddog Arolygu;
ii) adolygiadau rheolaidd o'r rheolaethau ariannol gan y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad;
iii) rheoli risg ffurfiol a adolygu parhaol rheolaidd o'r prosesau dan sylw;
iv) archwiliad mewnol ac allanol o'r prosesau rheoli risg;

v) y swyddogaeth Archwiliad Mewnol, sy'n ystyried risgiau dynodedig trwy archwiliadau rheolaidd o'r prif systemau, sefydliadau a phrosiectau mawr yn unol â'r cynllun blynyddol archwiliadau mewnol, ac sy'n cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau bod Prif Swyddogion yn gweithredu argymhellion a gytunwyd;
vi) asesiad blynyddol o Archwiliad Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
vii) gwaith Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau eraill y Cyngor, gan gynnwys ei bwyllgorau Archwiliad a Safonau;
viii) sylwadau ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ac asiantaethau archwilio ac adolygu eraill;
ix) arolygu cyflawniad yn rheolaidd gyferbyn â Chynllun y Cyngor a chynlluniau gwasanaeth a thargedau allweddol, a hysbysu hyn i uwch-reolwyr ac aelodau;
x) sicrwydd Prif Swyddogion o ran y rheolaethau mewnol y maent yn gyfrifol amdanynt;
xi) cyfarwyddo rheolaidd ar faterion allweddol llywodraethu corfforaethol rhwng y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

5.3 Cawsom ein cynghori ar oblygiadau canlyniad adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun yn bodoli ar gyfer rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaol y gyfundrefn.

5.4 O ran y 'materion rheolaeth sylweddol' hynny sydd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2008-09), gwnaed cynnydd yn 2009-10 fel a ganlyn:

- Datblygwyd agwedd strategol at reoli materion adnoddau dynol drwy'r Cyngor i gyd;
- Gwnaed cynnydd sylweddol ar ddiweddaru strategaethau a pholisïau cysylltiedig ag adnoddau dynol yn ôl blaenoriaeth;
- Symudwyd ymlaen yn sylweddol ar ddatblygu agwedd y Cyngor at leihau allyriadau carbon yn unol â'i ymrwymiad blaenoriaethol;
- Cynyddu ymwybyddiaeth yn barhaol o faterion llywodraethu allweddol gyda'r gweithlu.

6 Materion Rheolaeth Fewnol Arwyddocaol

Mae'r cynllun y cyfeiriwyd ato uchod yn cynnwys camau a luniwyd i roi sylw i'r materion rheoli arwyddocaol canlynol:

- Cael yr arbedion sy'n ofynnol ar Raglen Drawsffurfio gytûn y Cyngor ond darparu gwasanaethau'n effeithiol ar yr un pryd;
- Yr angen am drefniadau rheoli prosiectau a phartneriaethau effeithiol ac effeithlon er mwyn cynnal y Rhaglen Drawsffurfio;
- Datblygiad parhaol rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu o ran y lliaws prosiectau cydweithredol y mae'r Cyngor yn eu hybu;
- Yr angen i gynnal ac, os bydd angen, gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyflogeion ac aelodau o drefniadau llywodraethu'r Cyngor fel ag i ddal i gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Dros y flwyddyn a ddaw, rydym yn bwriadu cymryd camau i roi sylw i'r materion uchod i wella mwy ar ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn rhoi sylw i'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd a byddwn yn cadw golwg ar eu cyflawni a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnodwyd:..... **(Arweinydd)**……**2010**

Llofnodwyd:……..... **(Prif Weithredwr)**……**2010**